

ECO'R WYDDFA

Rhif 259

MEDI 1999

Pris 30c

Yn y rhifyn hwn . . .

★ Y diweddara am Bobol y Cwm ★
tudalennau 5 a 15

★ Ymweliadau'r Aelod Seneddol ★
tudalennau 12 a 13

★ Y Golygydd Chwaraeon yn America ★ *tudalen 24*

★ Cofio'r Deuddeg — ar fôr ac ar dir ★ *tudalen 8*

★ Cyn-ddisgyblion yn golffio ★ *tudalen 3*

★ Pwy sy'n mwynhau'r chwedegau? ★ *tudalen 13*

Y RUBAN GLAS



Enillydd y Ruban Glas a Gwobr Goffa David Ellis yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni oedd JOHN EIFION JONES o Fryn Eglwys, Penisarwaun. Mae John Eifion yn wyneb cyfarwydd ar lwyfannau eisteddfodau Cymru. Fe'i magwyd ar aelwyd gerddorol Hendre Cennin, Garndolbenmaen ac mae'n briod â Marina, un o Genod Tŷ'r Ysgol. Mae ganddynt ddwy ferch, Lois ac Anest. Yn sgîl ei lwyddiant cafodd wahoddiad i ganu yn Barbados ac yn Melbourne, Awstralia; ac mae cwmni Sain wedi rhoi cynnig iddo wneud casét / CD.

ECO'R WYDDFA

Rhif 259
MEDI 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Gibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynad Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

! NOS IAU, MEDI 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEDI 20
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A
HYDREF TACHWEDD RHAGFYR	MEDI 20 HYDREF 18 TACHWEDD 20	MEDI 30 HYDREF 28 RHAGFYR 2	PENISARWAUN LLANBERIS CAEATHRO	Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Camu . . . a chael cam ar Eithin Duon

Annwyl Olygydd Chwaraeon,

Hoffwn be paech yn tynnu sylw yn eich tudalen fisol at y cam dybryd a ddaeth i ran tîm pêl-droed 7-bob-ochr Pennau Bach Pen Bont mewn cystadleuaeth ddiweddar ar Gae Eithin Duon, Llanrug.

Roedd y gystadleuaeth wedi ei threfnu, yn ôl a ddeallwn, yn dilyn rheolau FIFA (Ffordd IFachu Arian i'r Sefydliad Coffa). Er bod y rheolau yn hollol hurt ac yn gofyn ar i fechgyn ifanc gywilyddio'n gyhoeddus trwy ddangos pa mor drwsogl oeddynt o'u cymharu â phensiynwyr heini, cadwodd tîm y Pennau Bach at y rheolau gydol y tair gêm — gan ennill dwy a dod yn gyfartal yn y drydedd.

Dyna hefyd oedd canlyniadau tîm Dreigiau Rhug, ond oherwydd eu bod wedi sgorio mwy o gôls na'n tîm ni, iddynt hwy y dyfarnwyd y darian. Digon teg. Ond, deallwn fod tîm Dreigiau Rhug wedi torri un o reolau'r gystadleuaeth trwy beidio â chynnwys rhywun dros hanner cant oed yn eu tîm gydol y chwarae. Rwan, os deallwn y rheolau'n iawn, roedd yn bosib iddynt wneud hynny os derbyniodd y dyfarnwr swm anrhydeddus o arian i gronfa FIFA. (O leiaf roedd y gystadleuaeth hon yn hysbysebu'n agored fod llwgrwobrwyo'r reffari yn cael ei ganiataul!) Hyd y gwyddom, ni thalodd Dreigiau Rhug unrhyw swm i'r reffari ac felly torrwyd un o reolau sylfaenol y gystadleuaeth.

Gofynnwn felly ar i Bwyllgor Rheoli FIFA drosglwyddo'r darian i Pennau Bach Pen Bont, a thafu Dreigiau Rhug allan o'r gystadleuaeth — oni ellir dangos:

(a) tystysgrif geni yr aelod o'u tîm yr honnir ei fod dros hanner cant oed; neu

(b) dderbynneg i ddangos cyfanswm yr arian a ddefnyddiwyd i lwgrwobrwyo'r reffari.

Am y ddau dîm arall yn y gystadleuaeth, roedd eu henwau mor ddiddychymyg â'u chwarae.

Edrychwn ymlaen am ennill y gystadleuaeth hon y flwyddyn nesaf.

Yr eiddoch yn gywir,

CEFNOGWR BRWD TÎM
PENNAU BACH PEN BONT

(Cafwyd enw a chyfeiriad y llythyrrwr — Gol.)

Hen Ysgol Ramadeg Brynrefail

Fel sawl un arall, mae'n siŵr, sy'n byw ym mro'r Eco y mae'n loes calon i mi weld adeilad yr hen Ysgol Ramadeg yn dirywio ac yn prysur adfeilio. Clywais, fodd bynnag, newyddion calonogol fod rhywrai yn mynd i geisio adfer yr adeilad. Oni fyddai'n syniad i neilltuo lle yn yr adeilad, pan gaiff ei atgyweirio, i gadw y llu enfawr o ddogfennau hanesyddol sy'n ymwneud â Chwarel Dinorwig, dogfennau sy'n awr yn Archifdy Gwynedd. Byddai hynny yn lleihau tipyn ar y diffyg lle yn yr Archifdy ei hun ac yn sicrhau fod y rhai sydd am astudio hanes Chwarel Dinorwig yn cael gwneud hynny nepell o'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol mewn man delfrydol a thawel. Byddai menter o'r fath hefyd, o bosib, yn creu gwaith i rywrai i ofalu am yr archifau gwerthfawr sydd yn awr yng Nghaernarfon.

Yn gywir,

TEGID ROBERTS
Arwel, Llanrug, Caernarfon

Rhifo yn Gymraeg

Annwyl Olygydd,

Mae'r iaith Gymraeg yn cynnwys amrywiaeth eang o eiriau rhif. Er enghraifft, yr un rhif yw 'deunaw' ac 'un deg wyth' a'r un yw 'cant namyn un' a 'naw deg naw'.

Ceir hefyd arferion cyfri amrywiol, megis dulliau arbennig wrth gyfri pysgod neu lechi. Gwerthid mecryll wrth y 'bwrw', sef tri physgodyn, a cheir 'mwrw' o lechi, sef tair llechen. Sonir hefyd am yr arferiad o gyfri defaid fesul saith.

Byddai'n dda gennyf glywed gan eich darllenwyr am enghreifftiau o ddefnydd anarferol o eiriau rhif. Gallai'r defnydd fod yn gyfoes neu wedi hen ddarod o'r tir, yn ddefnydd mewn ardal arbennig neu yn ehangach.

Gellir anfon manylion ataf, os gwelwch yn dda i: Ysgol Addysg, Safle'r Normal, Prifysgol Cymru, Bangor, Gwynedd LL57 2PX.

Yn gywir,

H. GARETH FF. ROBERTS
(Pennaeth yr Ysgol Addysg)

Cefnogwch ein
Hysbysebwyrr

Dathlu Canmlwyddiant

Annwyl Olygydd,

Ymhen blwyddyn, hynny yw, ym Medi 2000, byddwn yn dathlu agor Ysgol Sir Brynrefail fel yr adwaenid hi bryd hynny. Yn ei lyfr gwerthfawr ar hanes yr ysgol, cyfeiria y Parchg John Pritchard at ddau ddyddiad ynglŷn â'r agoriad, sef Medi 5 a Medi 25, 1900, dywed, ' . . . ond gwell ystyried Medi 5, sef diwrnod cyntaf y nodachfa (y basar), fel diwrnod mawr yr agoriad. Am hwnnw mae'r sôn hyd y dydd heddiw, ac yn wir dyma'r dydd y daeth yr Ysgol fel sefydliad i fywyd yr ardal.'

Ond ar Fedi 25, 1900 yr agorwyd yr ysgol i ddibenion addysg ac, o bosib, dyna'r dyddiad ym mlwyddyn gyntaf y ganrif newydd i ddathlu canmlwydd o addysg uwchradd yn yr ardal hon. Ac fel un a fagwyd ym mhentref Brynrefail rydwyf yn falch fod enw'r pentref yn dal ynghlwm â'r ysgol er iddi symud i Llanrug. Y rheswm pennaf am hynny yw y gwnaed addewid, wedi cais arbennig pwyllgor y cyn-ddisgyblion ar y pryd, gyda gwŷr fel y diweddar Eric Wakeham, Emyr Roberts, John Morris ac eraill ar flaen y gad, i'r pwyllgor addysg i gadw'r hen enw ar yr ysgol newydd yn Llanrug.

A oes unrhyw drefniadau ar dro i ddathlu achlysur mor bwysig?

Sylwais i ysgolion cyffelyb yn y Sir ddathlu eu canmlwyddiant hwy gydag wythnos o wahanol gyfarfodydd, gan derfynnu gydag Aduniad o'r hen ddisgyblion. Os dyna fwriedir ynglŷn ag Ysgol (Sir) Brynrefail, bydd yn ofynnol sefydlu pwyllgor ar gyfer y flwyddyn newydd i ddechrau ar y gwaith o drefnu all'swn feddwl. Buan iawn y daw Medi 2000 ar ein cefnau, a gwn fod amryw yn dymuno dathlu'r canmlwydd, er gwaethaf yr hen 'Forty Years On' bondigrybwyll!

Yn gywir,

ROL WILLIAMS
Waunfawr



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Cystadleuaeth Hanesyddol



Gwnaed apêl yn yr *Eco* beth amser yn ôl am enwau cyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail sydd, yn gam neu'n gymwys, wedi ildio i'r demtasiwn fawr gyfoes o chwarae golff. Bu'r ymateb yn syfrdanol. Llwyddwyd i olrhain dros hanner cant a'r gred yw bod mwy eto heb eu darganfod. Ymatebodd bron pob un yn gadarnhaol ac fe lwyddodd pum ar hugain i gymryd rhan yn y gystadleuaeth gyntaf o'i bath a hynny ar gwrs golff Sant Deiniol, Bangor, fore Sadwrn, 21 Awst. Roedd y gweddill yn gresynu nad oedd modd iddynt bresnoli eu hunain ond yn awyddus iawn i gael cyfle eto. Ni raid poeni gan y penderfynwyd yn unfrydol i gynnal y gystadleuaeth yn flynyddol gan ymweld â gwahanol gyrsiâu golff.

Roedd ymhlith y dewrion a ddaeth ynghyd nifer o 'dyrchwrs', carfan dda o 'waldiws' ac ambell golffiwr/wraig. Cydnabyddir cwrs Sant Deiniol fel un o gyrsiâu hyfrytaf a mwyaf croesawgar yr arfordir ond, oherwydd natur y tirwedd, mae'n cael ei gydnabod fel un o'r cyrsiau anoddaf. Mae'n serth, mae'n garegog ac, yn waeth,

mae'n eithinog! Cwrs delfrydol i'r golffwyr go iawn ac yn naturiol nhw a orfu ar y diwrnod gan adael y gweddill yn gwegian ar y rhiwiau ac yn bytheirio a rhegi yn chwilio am eu peli yng nghanol y llwyni eithin. Dim rhyfedd i un grŵp benderfynnu canolbwyntio ar ddweud straeon a jôcs ar bob 'T' gan gyrraedd y clwb wedi ymlâdd oherwydd y chwerthin!

Wedi'r gystadleuaeth mwynhawyd bwffe blasus yn y clwb, wedi'i baratoi gan Westy Eryl Môr, Bangor. Treuliwyd gweddill y pnawn yn sgwrsio a chymdeithasu. Braf oedd gweld cyn-ddisgyblion o'r 40au a'r 50au yn sgwrsio â'r rhai oedd newydd ymadael o'r ysgol.

Cyn cyflwyno'r cwpan i'r enillwyr diolchwyd i Glwb Sant Deiniol am eu croeso a'u llongyfarch ar gyflwr ardderchog y cwrs. Yna cyhoeddwyd bod Iwan Harding a Huw G. Roberts wedi ennill dwsin o belï golff yr un fel cydnabyddiaeth o'u llwyddiant yn cael 'birdie' yr un ar dyllau 'par 3'. Cyhoeddwyd wedyn mai'r pâr oedd yn drydydd yn y gystadleuaeth oedd Enid Roberts (Hughes gynt) ac Ann Lloyd; yn ail, J. E. Thomas a Huw G. Roberts; a'r

buddugwyr oedd Gareth Bryfdir ac Alwyn Williams. Er fod Twm Eilian wedi herio bod ei sgôr yn well na'r buddugwyr sylweddolodd yn fuan mai nam mathemategol, neu ddiffyg yn addysg gynnar ei bartner, Gwilym Evans, oedd yn gyfrifol am yr amryfusedd! Does dim gwir yn yr honiad fod y ddau wedi eu diarddel am byth o'r gystadleuaeth.

Cafodd gwobrau di-ri eu cyflwyno i'r raffl gan gyfeillion a chwmnïau lleol. Diolchwyd iddynt yn ddiffuant iawn. Bu hyn yn gymorth i wynebu costau sefydlu y gystadleuaeth. Bydd holl elw cystadlaethau'r dyfodol yn mynd i gronfa'r ysgol.

Ar ddiwedd y dydd etholwyd pwyllgor gyda'r bwriad o sefydlu cymdeithas swyddogol.

Arolwg Bro Gwyrfaï

Erbyn hyn mae adroddiadau Arolwg Bro Waunfawr a Chaeathro wedi eu cwblhau mewn ffurf drafft ac ymhen dim byddant ar gael i'r gymuned yn eu ffurf derfynol. Wedyn mae'r gwaith yn dechrau!

Bydd modd i drigolion y pentref nodi pa syniadau y maent am ganolbwyntio arnynt yn dilyn ymatebion yr holiadur. Mae cyfnod cyffrous iawn i ddod!

Mae plwyf arall am ddechrau yr un llwybr wrth i Gyngor Cymuned Betws Garmon nodi'u brwdfrydedd i gynnal arolwg bro. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i ddechrau'r broses ar nos Lun yr 20fed o Fedi 1999 am 7.30 p.m. yng Nghanolfan Rhyd-ddu.

Dyma gyfle euraidd i drigolion plwyf Betws Garmon ddod ynghyd i drafod syniadau ar gyfer dyfodol eu cymuned — peidiwch â cholli cyfle!

Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu ag Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfaï ar (01286) 650779.

Cofiwch fod croeso i unrhyw un ym mro Gwyrfaï — plwyfi Llanwnda, Llandwrog, Bontnewydd, Waunfawr a Betws Garmon — gysylltu ag Eirian i drafod syniadau.

Mae nifer o gynlluniau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, felly, dyma eich cyfle chi i fod yn rhan o'r bwrllwm yma gan wneud defnydd o'r Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

CYNGOR CYMUNED BETWS GARMON

*Ydych chi eisiau trafod syniadau
ar gyfer dyfodol ei cymuned?*

Yna dewch yn llu i'r

CYFARFOD CYHOEDDUS

yng NGHANOLFAN RHYD-DDU

NOS LUN, 20 MEDI 1999

am 7.30 p.m.

Peidiwch â cholli cyfle!

Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfaï ar (01286) 650779

ARDDANGOSFA a FFAIR GREFFTAU

i'w chynnal yn

NEUADD YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG
DYDD SADWRN, 13 TACHWEDD 1999

Os oes unrhyw un o'r fro â diddordeb mewn arddangos neu werthu unrhyw nwyddau crefft, gwaith llaw, a.y.y.b. ar y diwrnod, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG

MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



O SIAMBAR SELWYN

Sut wyliau gawsoch chi? Sut gêm oedd hi? Sut steddffod ges di? Dyna dri chwestiwn a ofynnir i mi yn weddol aml mewn blwyddyn gan mai dyna'r tri prif ddiddordeb sydd gen i — crwydro'r byd, gwylio gemau pêl-droed, a steddffota.

Mi fydda i yn teimlo'n eitha trist wrth ffarwelio â maes y Brifwyl bob blwyddyn, ac yn enwedig felly wrth fynd yn hŷn. Roedd 'na amryw o hen ffrindiau — y byddwn i yn dymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' iddyn nhw yn flynyddol — wedi diflannu o'r Brifwyl eleni, a'r un fydd y stori yn Llanelli y flwyddyn nesaf — os byw ac iach. Ond mi rydwi'n eitha ffyddiog a hyd yn oed wedi gwneud ymholiadau ym mhle i aros yn Ninbych yn y flwyddyn 2001. Rhaid cael ffydd.

Mae'n wir i ni gael ein siâr o law ym Môn eleni ond mae'n rhyfedd fel mae llygedyn o heulwen yn dod a gwên i wyneb eisteddfodwyr ac wrth ffarwelio â Llanbedrgoch fe deimlwn innau fel y diweddar R. E. Jones, cyn-brifathro Ysgol Dolbadarn:

*Er inni orfod rhodio — 'n oer a gwlyb
Er i'r glaw ein mwyo,
Rhyw brofiad trwm, trwm bob tro
Ffoi o'r Wyl a ffarwelio.*

Ond profiad hapus iawn ges i nos Sadwrn y Brifwyl. Fûm i 'rioed mor nerfus wrth wyllo cystadleuaeth. Wn i ddim sawl glasiad o win yfais i. Do, mi gollais ddeigr yn hefyd pan lwyddodd fy nghymydog i ennill y Rhuban Glas. Petawn i'n medru canu mi fyddwn innau wedi morio canu y nos Sadwrn honno.

Buan iawn roeddem fel perthnasau a ffrindiau wedi ymgynull yn rhif 7 Bryn Eglwys. A sôn am barti. Parti a barhaodd tan oriau mân y bore. Rhaid oedd dathlu. Oherwydd unwaith mewn oes mae rhywun yn cyrraedd y brig. Dwi ddim yn amau nad oedd Benja y gwnigen yn awyddus i wneud naid bynji oddi ar y balconi hefyd. Diolch fod John Eifion a'r teulu yn cychwyn ar eu gwyliau

i Ffrainc o fewn ychydig oriau ar ôl y fuddugoliaeth fawr, neu fe fyddai'r dathlu wedi para dipyn mwy!

Diolch i'r drefn, mae tymor y bêl-droed yn dechrau'n syth ar ôl y Steddffod. Dwi newydd fod yn gwneud gwaith ymchwil ar fywyd Dixie Dean, blaenwr Everton yn ystod dauddegau a thridegau'r ganrif 'ma. Un a aeth i Ysgol Borstal yn wirfoddol am fod 'na gyfleusterau ardderchog i chwarae pêl-droed yno. Un a fu'n gweithio mewn sied rheilffordd pan yn bedair ar ddeg oed a'r lle hwnnw'n berwi o lygod mawr ac yntau'n ymarfer ei ddoniau cicio, ac yn lladd tua hanner dwsin ohonyn nhw bob nos.

Un a gafodd £8 yr wythnos o gyflog am sgorio 100 o goliau yn ystod un tymor. Yn ystod ei yrfa fe sgoriodd o 17 hatric — pan oedd hatric yn golygu tair gôl yn olynol. Un a gafodd 17 o lawdriniaethau ac a graciodd ei benglog mewn damwain beic modur ger Llanellwyr pan oedd o ar y brig fel pêl-droediwr. Un a chwaraeodd 16 o weithiau i Loegr gan sgorio 18 gôl.

Mae pêl-droedwyr heddiw mor fedrus fel y byddan nhw, yn fy marn i, wedi lladd y gêm o fewn ychydig flynyddoedd nesa 'ma. Does yna ddim synnwyr fod rhai yn derbyn £40,000 a mwy yr wythnos am gicio pêl. Mae yna dimau, ia, fel Everton (hen dîm Dixie Dean) hefo problemau ariannol. Down yn nes adra, a holwch faint mae hi'n gostio i redeg tîm llwyddiannus yng Nghyngair Cymru? Fe gewch sioc.

Yr unig dro i mi weld Dixie Dean oedd pan es i i dafarn y Dublin Packet yng Nghaer. Welais i rioed mohono yn dangos ei ddoniau ar faes pêl-droed, ond

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

LLONGYFARCHIADAU. Unwaith eto pleser o'r mwyaf yw cael llongyfarch ieuencid y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau eleni. Mae nifer fawr wedi cael canlyniadau ardderchog yn eu arholiadau gradd, lefel-A, TGAU ac arholiadau galwedigaethol. Dymunir pob llwyddiant iddynt i gyd wrth symud ymlaen yn yr ysgol, i goleg ac i waith.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir cyfarfod agoriadol o gangen Bethel 1999-2000, nos Fercher, Medi 8fed, am 7.30 p.m. yn Neuadd yr Ysgol, pryd yn diddanir gan Aria. Darperir lluniaeth ysgafn gan y pwyllgor — pawb i ddod â chwpan. Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â'r gangen. Edrychwn ymlaen am eich gweld.

DYMUINIADAU GORAU i Bethan Williams, Tan-y-cae sydd yn mynd i Nepal am chwe mis i ddysgu Saesneg i'r trigolion. Bydd wedi gweld rhyfeddodau ar ei theithiau! LLWYDDIANT EISTEDDFODOL. Llongyfarchiadau mwr i holl ieuencid y pentref a fu'n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau yn ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol Môn. Roedd amryw o ieuencid y pentref yn y gerddorfa ieuencid, côr, dramâu ac arddangosfa dawns; a hefyd i oedolion fu'n cystadlu yn unigol, mewn corau a phartion ac yn

aelodau o gôr yr Eisteddfod. DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs C. E. Hughes, 17 Bro Rhos ddiolch yn ddiffuant i'r cyfeillion, cydnabod a chymdogion am eu caredigrwydd mawr a'u cydymdeimlad yn eu galar am anwylyd. Diolch am ofal y meddyg P. W. White a staff Meddygfa Y Felinheli. Diolch am gefnogaeth meddygon a nyrsus Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r gweinidogion a fu'n ymweld â hi ac yn enwedig y Parchedig W. R. Williams. Diolch i'r ymgymrwyr John O. Williams a'i Fab, Biwmares.

AR WERTH — Prosesydd Geiriau, Sharp FW-600, Font Writer. Cyflwr ardderchog. Delfrydol i fyfyrwr. £120. (01248) 670726.

DRAENOG

Mi glywsocch chi fel finnau am bobl yn gwneud camgymeriad ac yn mynd at y doctor neu'r deintydd awr yn gynnar neu ddiwrnod yn hwyr. Mae'n ddigon hawdd gwneud hynny. Ond yr orau eto yw'r stori am ŵr o Lanberis aeth i Ysbyty Gwynedd flwyddyn yn gynnar. Ar gyfer Awst 2000 roedd yr apwyntment. Dyna'r dyn cyntaf erioed i mi glywed amdano yn mynd at y doctor yn y mileniwm anghywir!

mi dynnodd o beint i mi ac mi gawsom sgwrs — a pheint arall.


Fy nghyngor i bawb sy' am weld tipyn ar yr hen fyd 'ma ydi — ewch tra rydach chi'n weddol ifanc. Mae angen tipyn o stamina i deithio'n bell. Mae gen i ofn cael fy nharo'n wael a minnau mewn gwlad dramor. Ychydig wythnosau cyn y Steddffod roeddwn i yn Rwsia a doeddwn i ddim yn teimlo'n dda iawn. Diodda'n dawel wnes i. Roedd gen i ofn cael fy nghipio i ysbyty yn Rwsia o bob man. Nefoedd fawr beth petaswn i'n cicio'r bwced yno? Dwi'n gobeithio pan 'ddaeth i ben deithio byd' yn fy hanes innau y caf farw ar dir Cymru. Ond, twt lol, mae gen i

sawl taith wedi ei threfnu cyn yr olaf un. Gobeithio. A sawl Steddffod i fynd iddyn nhw. A sawl gêm pêl-droed i'w gwylio hefyd. Gobeithio. Rwy'n ffyddiog. Rwy'n gobeithio!

Yn ôl at Dixie Dean i gloi. Yn ystod tymor pêl-droed 1979-80 roedd Everton yn herio eu hen elynion, Lerpwl, ar Barc Goodison mewn gêm darbi. Roedd Dixie Dean yno yn gwylio'r gêm, ac yno cyn y chwiban olaf y bu farw yn 72 oed. Pe bai o wedi cael dewis lle i roi ei anadl olaf dwi'n siŵr y byddai wedi dewis Parc Goodison, a'r gêm fydda fo wedi ei dewis fyddai yn erbyn Lerpwl. Ia, 'true blue' i'w anadl olaf.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Alwyn a Sarah Jones
RACCA
PENISARWAUN

- ★ Blodau ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewis da o Lysiau Fferm
- ★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

'Un funud fach . . .' YR ECLIPS

Roedd yr haul yno o hyd. Ond doeddau ni ddim yn ei weld. Yn union fel mae Duw yno o hyd er nad ydym bob amser yn ymwybodol o hynny.

Ar fore o Awst eleni daeth y lleuad rhyngom â'r haul a chuddio'r goleuni llachar hwnnw oddi wrthym. Am funud neu ddau roedd dydd wedi troi'n nos, a holl danbeidrwydd yr haul wedi ei guddio. Roedd yr eclips, ar y teledu — os nad uwch ein pen yng Nghymru — yn rhyfeddol.

Bydd rhaid i ni ddisgwyl tan ddiwedd y ganrif nesaf i weld yr olygfa ysblennydd hon oddi ar dir Prydain eto. Roedd yr eclips yn gyffrous, yn hardd ac yn werth ei weld. A gwyddem, wrth gwrs, na fyddai'n para'n hir ac yr ailymddangosai'r haul mewn ennyd.

Ond does dim yn hardd nac yn gyffrous pan fo Duw wedi ei guddio oddi wrthym. Gall rhyw gwmwl ei gwneud yn anodd i ni weld Duw. Gall ambell leuad ddod rhyngom â Duw a gwneud iddo ymddangos yn bell iawn oddi wrthym. A gwaetha'r modd nid unwaith mewn oes y mae hyn yn gallu digwydd, ac nid am funud neu ddau yn unig mae'n para.

Gall ambell brofiad chwerw wneud i ni deimlo fod Duw yn bell iawn.

Gall profedigaethau guddio cariad Duw.

Gall anghrediniaeth a'n amheuo fynd â ni i dywyllwch mawr.

Ond, mae Duw yn dal yno, mor gadarn, mor llachar ac mor danbaid ag erioed.

Beth bynnag yr ydym yn mynd drwyddo mae Duw yno, a'i ofal a'i gariad atom yn aros yr un.

Gweddiwn felly am help i weld hynny ac i wybod ein bod yn ddiogel yn Ei law ym mhob peth sydd yn digwydd i ni.

JOHN PRITCHARD

**CANOLFAN
FFITRWYDD P.C.
Hen Safle Marconi
Waunfawr
(01286) 650011**

- ★ OFFER RHAGOROL ★
- ★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
- ★ CAWODYDD ★
- ★ TALU WRTH Y DRWS ★
- ★ DIM ANGEN CADW LLE ★

ORIAU AGOR:

11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau

PRISIAU:

1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MARWOLAETH. Yn dawel yn ei gartref, ddydd Gwener, Gorffennaf 30, bu farw Mr Leonard Jones, Fron Gader yn 68 mlwydd oed. Gŵr tawel oedd Len ond bob amser â sgwrs ddifyr a'i brif ddiddordeb oedd ffotograffiaeth. Wedi iddo weithio am bum mlynedd ar hugain ar Rheilffordd yr Wyddfa gadawodd y gwaith hwnnw a chymryd ei ddiddordeb yn waith pob dydd gan fynd o amgylch ysgolion y fro i dynnu lluniau.

Bu ei angladd ddydd Gwener, Awst 6, gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel ac yna yn dilyn yn Amlogsgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Philip Hughes a Tegid Roberts gyda Mr Gareth Jones wrth yr organ.

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod, Dorothy, a'r plant Martin, Christopher, Alison a'i phriod Andrew, a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

CYDYMDEIMLAD. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Hannah Jones, Tawel Lan, Llanberis yn ei phrofedigath o golli ei phriod Mr Eurwyn T. Jones, cyn-brifathro yr ysgol. Bu Mr Jones gyda ni yn y Cwm am ddeunaw mlynedd ac yn fawr ei barch gan bawb.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Mrs Enid Price, Stryd Newydd ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Lynne a Gwyn, Mona ar enedigaeth mab bach, Aaron Gwyn.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Dilys Jones, Bryn Hyfryd wedi iddi gael damwain a thorri ei braich.

DYMUNIADAU GORAU i Glyn Price, Tan-y-graig ym Mhrifysgol Cheltenham; hefyd i Anthony Foulkes yng Ngholeg Menai.

FFARWELIO Â'R CWM. Dyna fydd hanes Alison, Fron Gader yr wythnosau nesaf pan fydd yn ein gadael i ymgartrefu yn Unol Daleithiau America. Dymunwn pob dymuniad da a hapusrwydd iddi a'i phriod, Andrew, yn eu cartref newydd.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559

AA
MOT

RAC
Selected

BOSCH
SERVICE

**BETH YW
'CWM DERWEN?'**
Trowch i dudalen 13

Caban y Cwm



Robin Williams, Menter Fachwen, yn cyflwyno gwobrau i Mrs Gwenifer Roberts a Mrs Rita Williams, Paul a Cheryl.

Cafwyd ymateb da i'r gystadleuaeth a gyhoeddwyd yn rhifyn mis Gorffennaf o *Eco'r Wyddfa* i gael dnu i gaffi newydd Menter Fachwen yn Nhŷ Llundain, Cwm-y-glo. Ymgeisiodd llawer o blant yr ysgol a sawl un o'r gymuned leol hefyd. Ar ôl i'r staff yn Nhŷ Llundain ddewis a dethol cafwyd rhestr fer o bump cynnig a'r enw mwyaf poblogaidd a ddaeth i'r brig oedd cynnig Mrs Mair Hughes, prifathrawes yr ysgol, sef 'Caban y Cwm'. Oherwydd anhwylder iechyd nid oedd Mrs Hughes yn medru bod yn bresennol i dderbyn y wobwr ond cynrychiolwyd hi gan ddwy o athrawesau'r ysgol, Mrs Rita Williams a Mrs Gwenifer Roberts. Cyflwynwyd iddynt fasgedaid o flodau i'r ysgol a bydd Menter Fachwen yn ei llenwi yn flynyddol gyda phlanhigion o'r tŷ gwydr sydd yng nghefn Caban y Cwm.

Cynigion dau o blant yr ysgol oedd dau enw arall a ddaeth i'r rhestr fer hefyd, sef 'Caffi Croeso' gan Cheryl Williams a 'Caffi 2000' gan Paul Fleetwood. Y ddau arall ddaeth yn agos oedd Mrs Nellie Owen a awgrymodd 'Caffi Seiont' a Mr Llew Hughes yn cynnig 'Y Gegin

Fach'. Gwobrwydwyd hwythau i gyd â thocyn i gael te yng Nghaban y Cwm. Bydd y caffi ar agor bob wythnos o ddydd Mawrth i ddydd Gwener o 11 o'r gloch hyd 4 o'r gloch. Gobeithir trefnu clwb cinio i bensiynwyr o fis Medi ymlaen ac edrychir ymlaen i'r lle ddatblygu yn ganolfan gymdeithasol.

Cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol yn ystod mis Awst, cwis i'r plant bob pŵn Mercher, gweithdy celf ddydd Sadwrn, Awst 14; a gweithdy jyglo ddydd Sadwrn, Awst 21. Os bydd digon o ddiddordeb gobeithir cynnal Clwb Gwyddbwyll i'r plant, sesiynau wythnosol i ddechreuwr a gellid trefnu gemau hefyd i'r rhai sydd eisoes yn gallu chwarae.

Gellwch ddod i Gaban y Cwm hefyd i syrffio'r wê. Bydd tâl am yr alwad ffôn yn unig (30c am 5 munud). Gallwn eich helpu os bydd angen cyfarwyddyd amoch. Hefyd gallwn helpu mudiadau a gwerthgareddau cymunedol gyda gwasanaeth llun-gopiö, e-bostio, ac ati.

A beth am de parti i'r plant yma yng Nghaban y Cwm?

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Alex ar (01286) 872014.

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

**GWERTHU
- TRWSIO**

- ★ Teledu ★ Fideo
- ★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

CHWILOTA

ANHEDDAU CANOLOESOL CWM BRWYNOG



Yn y Record of Carnarvon, 1352 sonnir am nifer o anheddau oedd yn gysylltiedig â Chastell Dolbadarn. Roeddent oll ar y tir uchel yn ardal Cwm Dwythwch a Chwm Brwynog, ac mae posibilrwydd mai ffermydd oeddent; doedd defaid ddim yn bwysig bryd hynny i'r amaethwyr mynyddig. Mae nifer o'r anheddau hyn wedi eu cofnodi eisoes gan archaeolegwyr, ac mae cyfeiriad manwl atynt yn y gyfrol swmpus ar Henebeion Sir Gaernarfon (Canolbarth), canlyniad Comisiwn Brenhinol ar Henebion yng Nghymru (1960).

Mae hafotai Cwm Brwynog (neu Crombrounok fel y cyfeirir ato yn y Record gwreiddiol) wedi eu lleoli yn agos i Orsaf Hanner Ffordd ar Reilffordd yr Wyddfa. Tybid mai saith o adeiladau oedd yno ar y cychwyn, ond mae arolwg diweddarach eisoes wedi lleoli un ar ddeg o olion anheddau. Mae'r cyfan bellach wedi eu mesur a'u cofnodi'n fanwl, a swyddogion CADW yn eu cofrestru.

Dyma ran o'r adroddiad a ysgrifennwyd am y safle ac rwy'n ddiolchgar i Ken Jones, Llanberis am gael benthyg y copi. Gyda llaw, rhaid canmol Ken am ddod â'r safle i sylw'r awdurdodau perthnasol.

'Canfuwyd saith adeilad gan y Comisiwn Brenhinol (yn 1960), mewn dau grŵp ar wahân. Roedd y grŵp uchaf yn cynnwys pedwar cwt, a'r grŵp isaf dri chwt, wedi eu hadeiladu ar lwyfannau ar ochr orllewinol y dyffryn, rhwng dwy o lednentydd afon Arddu. Yn ogystal, mae'n ymddangos fod banciau sydd ar y safle yn amgylchynu tir caeedig, sydd, mae'n debyg, yn perthyn i'r un cyfnod â'r anheddau.'

'Yn dilyn ymchwiliadau diweddarach, canfuwyd rhagor o olion adeiladau; dau ohonynt ychydig islaw'r rhai a gofnodwyd gan y Comisiwn Brenhinol; yn ogystal â llwyfannau llai amlwg, a chysgodfan neu gorlan fechan ar gyfer anifeiliaid. Mae'n ymddangos fod rhai o'r adeiladau wedi eu hailadeiladu neu eu hail-

ddefnyddio, a gallai hynny egluro'r gwahaniaeth yng nghyflwr yr adeiladwaith. Mae'n anodd gwybod a oedd yr anheddiad yn cael ei ddefnyddio gydol y flwyddyn neu'n dymhorol, fel hafod yn unig.'

Mewn llythyr i Ken Jones ym mis Mehefin eleni, noda Dr Kathryn Roberts o CADW fod safle hafotai Cwm Brwynog yn, *'... one of the largest surviving medieval settlements, not only in Gwynedd, but in Wales. It is rare to find more than five houses, but here there are at least nine, combined with some evidence for a house platform which could have supported a timber house on it... The site is obviously of great historical and archaeological interest...'*

Mae angen llawer o waith archaeolegol ar y safle i ddarganfod mwy am yr hafotai hyn, a gobeithio y gallaf roi mwy o wybodaeth i'r darllenwyr am unrhyw ddatblygiad pellach ar y safle.

CLODDFA ARIAN KELLOGG

Ydi, mae Kellogg yn enw adnabyddus fel cynhyrchwyr grawnfwyd brecwast, ond y dref o'r un enw yn nhalaith Idaho, Unol Daleithiau America sydd dan sylw y tro hwn. Derbyniais lythyr gan J. Parry Jones o Ddolgarrog, Dyffryn Conwy yn holi ar ran Americanaes â'r enw hyfryd, Cedris. Taid iddi oedd Thomas Parry, a aned ym Methel, yn fab i Hugh a Margaret Parry, ond a

symudodd i fyw i Gorffwysfa, Waunfawr cyn ymfudo i Canada yn negawd cyntaf y ganrif hon. Yn ddiweddarach, croesodd y ffin i Idaho, lle bu'n gweithio yng nghloddfeydd arian Kellogg am hanner canrif.

Bu Hugh Parry (tad Thomas, a hen daid Cedris) farw yng nghartref ei ferch, Mrs M. Williams, Llwyn Afon, Waunfawr yn 95 oed ym mis Medi 1942. Tybir fod merch arall ganddo, sef Mrs Janes Jones, Goleufryn, Waunfawr.

Bu Cedris ar ymweliad â Chymru bum mlynedd yn ôl, ond heb fod yn ymwybodol fod aelodau o'i theulu yn byw yn ardal Caernarfon, lle bu'n aros ar y pryd. Mae'n awyddus i ddod ar daith arall i Gymru a hoffai wybod a oes perthnasau iddi'n dal i fyw yn yr ardal. Gall unrhyw un sydd â gwybodaeth am y teulu gysylltu'n uniongyrchol â H. Parry Jones, 26 Graham Road, Dolgarrog, neu â mi.

CARCHARORION RHYFEL YNG NGHLYNRHONWY

Yn ystod yr haf cefais y pleser byr-hoedlog o gyfarfod un o'm cyd-ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail gynt, ar un o'i ymweliadau â Llanberis. Bydd amryw yn cofio John Richard Roberts (John Rich) fel pêldroediwr i ddim enwog y Darans yn ystod y chwedegau. Mae'n derbyn yr *Eco* yn rheolaidd yn Saskatchewan, Canada.

Mae John yn awyddus i dderbyn gwybodaeth am wersyll carcharorion rhyfel yng Nghlynrhonwy yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd taid iddo yn gweithio yno a byddai'n cario nwyddau o'r gwersyll i'r pentref i'w gwerthu er mwyn ennill ychydig geiniogau i'r carcharorion er mwyn prynu sigarêts. Un o'r nwyddau a fyddai'n ei werthu oedd modelau bychan mewn poteli gwydr. Mae sawl un ym meddiant y teulu o hyd.

Rai blynyddoedd wedi diwedd y rhyfel daeth meddyg o'r Almaen i Lanberis i chwilio am daid John er mwyn diolch iddo am ei garedigrwydd tuag at y

carcharorion, ond yn anffodus, erbyn hynny, roedd wedi marw.

Os oes unrhyw un â gwybodaeth am y cyfnod hwn yn hanes Llanberis — neu os oes un o'r poteli yn parhau ym meddiant rhywun o'r fro, rhowch wybod i mi.

'FREE FROM ANTHRAX'

Derbyniais wybodaeth gan Mr Griffith Evans, Rhiwlas yn cynnig mai carn brwsh shafio a ddaeth i'r fei yn fy ngardd gyda'r geiriau *'free from anthrax'* wedi eu printio arno. Awgrymai mai blew anifail oedd i'r brwsh a bod angen hysbysu'r prynwr ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio! Oes rhywun yn cytuno? Neu oes awgrym arall?

Cefais wybodaeth gan Mr Evans hefyd am bwmp dŵr yn ardal Waen Pentir; eiddo'r Caernarfon Union Sanitary Authority — ond bydd rhaid disgwyl tan y rhifyn nesaf am hanes hwnnw.

Cofiwch gysylltu ar unrhyw agwedd o hanes y fro. Anfonwch, neu ffoniwch, Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

DRAENOG



Mae Draenog bach fel fi yn cymryd oriau lawer i symud o un pen i'r pentra i'r llall. Felly mi rydwi yn edmygu'r bobol hynny sy'n gallu cerdded i ben y Wyddfa, hyd yn oed os byddan nhw wedi ymlâdd ar ôl gwneud hynny. Roedd teulu dyn o Llainwen yn llawn edmygedd ohono pan ddaeth adref un pnawn wedi blino'n lân ar ôl cerdded, medda fo, i ben y Wyddfa ac yn ôl. Dipyn o gamp ydi cerdded i'r copa wrth gwrs ac mae'n iawn canmol y cyfaill am wneud hynny. A phwy wêl fai arno am dderbyn cynnig i ddod lawr efo'r trênn? Ond mae'n debyg na soniodd o ddim am hynny wedi cyrraedd adref.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Diwedd haf yn y Parc ANTUR

gan Dewi Jones
(Rheolwr y Parc Natur)



Mor braf yw cerdded o gwmpas Parc Natur yr Antur ar fore braf o haf hwyr gyda tharth yn codi o'r pyllau a'r gwe pry cop yn disgleirio hefo gwlybanaeth. Dyna sut le ydi'r Parc, mae pob diwrnod, mis a thymor yn wahanol.

Mae nifer o lwybrau yn y Parc a phob un yn apelio at rywun — beth am fentro drwy'r coed, neu daith ysgafn o amgylch y llynnoedd, a stelcian ar y bont i weld bywyd gwyllt y pyllau. Cofiwch alw yn y Caban Ecoleg, lle mae'n bosib gweld y bywyd gwyllt sy'n byw yn y pyllau mewn tanc a hefyd darganfod dipyn am ecoleg a bio-amrywiaeth. Yn ogystal mae arddangosfa o dechnoleg amgen yn y Caban, pŵer o'r gwynt a'r haul.

Y gymuned yw perchnogion y Parc, fel gardd fawr i bentref Waunfawr, lle mae bywyd gwyllt yn cael ei warchod a cynefinoedd yn cael eu creu at y dyfodol.

Ceir rhwydwaith o lwybrau drwy'r Parc sy'n cysylltu â llwybrau cyhoeddus yr ardal, mae un ohonynt yn dilyn yn syth at Ysgol Waunfawr, sy'n gyfleus i'r disgyblion ddod draw i'r Parc yn ddyddiol i gymeryd darllen-iadau o'r orsaf dywydd.

Gwelir nifer o bentrefwyr Waunfawr yn rheolaidd yn y Parc, a'u plant yn mwynhau ychydig o hwyl yn y lle chwarae, ond braf fyddai gweld mwy o'r ardal yn mwynhau yr awyrgylch arbennig sydd yma, gyda'r golygfeydd bendigedig i lawr Dyffryn Gwyrfaï a Mynydd Eliffant yn eistedd yn fawreddog ac yn gwarchod y ffordd drwy'r dyffryn.

Ar nos Wener, 3ydd Medi mae digwyddiad arbennig yn cymryd lle am y drydedd flwyddyn yn olynol, sef 'Gŵyl y Gwyll'. Bu nifer ohonoch yma y llynedd yn mwynhau gweld rhyfeddodau'r Parc liw nos, a chael arbenigwyr wrth law i'ch cynorthwyo i ddysgu mwy am ystlumod a gwyfynnod. Gobeithio y cawn noson glir eleni, er mwyn cael astudio y sêr

drwy delesgop y seryddwr Rhys Morris. Eleni am y tro cyntaf bydd Twm Elias wrth law yn ystod y noson gyda storiâu difyr i'n diddanu. Cofiwch roi y noson i lawr yn eich dyddiadur.



PRIODAS. Ddydd Sadwrn, Awst 14eg, yng Nghapel y Rhos, Llanrug priodwyd Nicola Louise Houston a Dafydd Wyn Owen, Llanberis. Gweinyddwyd gan y Parchg Dafydd Hughes a'r organyddes oedd Mrs Lowri P. Roberts Williams. Y morynion oedd Becky Owen, Emma Thomas, Rose Thomas, Cara Glass, Jenny Llywelyn ac Amber Saville

ynghyd â thri macwy, Siôn Idwal Long, Sam Roberts a Daniel Wyn Roberts. Roedd y wledd briodasol yng Ngwesty Carreg Brân, Porthaethwy a threuliodd y pâr priod eu mis mêl yn Malaga, Sbaen.

Dymuna Dafydd a Nicola ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

YMDDIHEURIAD

Gofynwyd i ni gywiro un o'r straeon 'Draenog' a welwyd yn rhifyn diwethaf yr Eco. Nid oedd y stori am ŵr o Ddeiniolen a gollodd ei esgidiau yn gywir o gwbl. Ymddiheurwn am y camgymeriad ac am unrhyw annifyrrwch a achoswyd gan y stori gamarweiniol.

Tipyn o hwyl a thynnu coes yw'r straeon 'Draenog' wrth gwrs, ac mewn ysbryd felly y cyhoeddir y straeon sy'n cael eu hanfon atom o fis i fis. Yn yr achos hwn mae'n amlwg fod stori anghywir wedi cael ei hanfon atom, ac ymddiheurwn am hynny. — *Golygyddion*

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Cynhaliwyd cyfarfyddiad o'r Gymdeithas yn y Ffestri nos Fawrth, Gorffennaf 6ed dan lywyddiaeth Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Roedd y rhannau arweiniol yn gyflwyniad llafar dan ofal plant yr Ysgol Sul, Caryl ac Wen Jones a Rhian ac Anna George ynghyd â Mair Davies a Lowri Roberts Williams. Rhoddwyd croeso i wraig wadd y noson, Mererid Mair Williams,

Penmaenmawr gan y cadeirydd. Cafwyd noson hynod o bleserus yn ei chwmni yn disgrifio ei hymweliad ag India fel rhan o'i chwrs ar Hyfforddiant mewn Cenhadu.

Dangosodd nifer o sleidiau a oedd yn adlewyrchu y profiadau a gafodd ac roedd ei gwisg Indiaidd ar y noson yn apelio'n fawr ac yn arbennig pan gafodd y plant eu gwisgo ar y terfyn mewn amrywiol sari lliwgar. Diolchwyd i Mererid gan Mr Emyr Williams.

Paratowyd y baned gan Bethan Lambert a Dwynwen Williams. Anfonwyd cofion cynnes y Gymdeithas at Betty Owen, Tros yr Afon oedd ar y pryd yn Ysbyty Gwynedd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Medi 9fed, yng nghwmni Olwen a Gwilym Lewis, Caergybi. Croeso cynnes i bawb.

GRADDIO. Llongyfarchiadau calonog i Gareth Davies, Bryn Madog ar ennill gradd anrhydedd mewn Cyllid a Chyfrifeg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol yn ei astudiaethau ymchwil ar gyfer gradd pellach.

CROESO. Estynnwn groeso cynnes i ddau deulu sydd wedi symud if yw i'r pentref yn ystod yr haf, sef Michael a Marian Christy, Aiden a Shannon Lloyd i 7 Trem Eilian; a John a Diana McBryde i Fryn Llwyd. Gobeithio y byddwch yn cartrefu yn fuan yn ein plith.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Wedi tymor y gwyliâu, bydd y gangen yn ymgynull nos Lun, Medi 20fed pryd y ceir arddangosfa goginio dan ofal Mrs Anita Long, Tan yr Onnen. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yng Nghaffi Creffttau Fferm Cae Coch yn Llanberis.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau mis Medi:

- 5. Mr Islwyn Hughes, Llangoed (5.30)
- 12. Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon (5.30)
- 19. Mr Alun Rowlands, Bangor (10)
- 26. Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (10)

GŴYL Y GWYLL

Nos Wener, 3ydd Medi
8.00 yr hwyr



hwyl yn y Parc yn dysgu am fywydau dirgel yr hwyrnos



ystlumod, gwyfynnod a'r sêr

storiwr

antur



01286 650 721

WAUNFAWR

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Cofio'r deuddeg — ar fôr ac ar dir

Cafwyd digwyddiadau arbennig iawn yn Llandinorwig, Deiniolen ac ym Mhwlheli ar y cyntaf o fis Gorffennaf eleni i gofio'r deuddeg o Ddinorwig a foddwyd ym Mae Ceredigion, Pwllheli tra ar drip Ysgol Sul, union gan mlynedd yn ôl — 1 Gorffennaf 1899.

Y diwrnod hwnnw boddwyd naw o blant a thri oedolyn oll yn aelodau yn St. Mair Dinorwig ac yn rhan o fintai gref o 750 o Eglwyswyr o Ddyffryn Peris a aeth i'r dreflan yn Llŷn i fwynhau un o'r diwrnodiau hapusaf yn y flwyddyn. Trodd y pleserdaith yn hunllef wrth i gwch rhwyfo bleser ddymchwel a hynny rhyw filltir o draeth Marian y De (South Beach) Pwllheli a boddi'r deuddeg; dim ond y cychwr, sef Robert Thomas, achubwyd. Roedd y deuddeg o bedwar tŷ yn Ninorwig, sef Charles Davies (Bron Elidir), Thomas a Richard Hughes (Tanybwllch), Owen Thomas, Ellen Thomas, Owen Parry, Ellen a William Edward (Tyn y Fawnog), John Hughes, Ellen Hughes, Catherine Ann a John Rowland (Tŷ Ddewi). Dyma un o drasediau mwyaf cymdeithas ardal chwarelyddol Dinorwig a phan gladdwyd un ar ddeg o'r deuddeg ar bnawn Iau, Gorffennaf 6ed, 1899, gwelwyd y cynhebrwng mwyaf erioed yn hanes plwyf Llandinorwig.

COFIO AR Y MÔR

Fore Iau, 1af Gorffennaf, roedd prysurdeb o flaen cwt Bad Achub Pwllheli; roedd y criw ymroddedig yn paratoi i fynd a mintai i fan y dymchwel yn y bae. Mr Owen Roberts a wnaeth y trefniadau angenrheidiol, gŵr â phrofiad oes gyda'r Bad Achub a diolchir iddo am ei garedigrwydd a'i gydweithrediad parod. Hyfryd oedd gweld dros gant o blant Ysgol Cymerau (ysgol gynradd tref Pwllheli) wedi dod i'r safle gyda'u hathrawon; rhoddodd y Canon Idris Thomas, Trefor, fraslun iddynt beth a ddigwyddodd yn y dref ganrif union yn ôl i'r bore hwnnw. Gyda'r plant yn chwifio dwylo y llithrodd y Bad Achub i'r dŵr, ac er dechreuad cymylog i'r dydd roedd gwenau'r haul arnom bellach. Wrth i ni

ddynesu at fan lle dymchwelodd y cwch (rhyw filltir i'r môr o draeth Marian y De) gwelsom fod mintai wedi ymgasglu ar y traeth ac yn eu mysg Dorothy Schofield a Laurence Arthur, sef wyres a wyr John Hughes, Tŷ Ddewi, Dinorwig un o gymeriadau canolog y drasiedi. Medrodd criw y Bad Achub lonyddu'r bad, casglodd pawb ar ei bwrdd yn dawel a myfyrgar i'r gwasanaeth a oedd ar gychwyn. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig William Davies, gweinidog Capel y Drindod, a'r ficer y Parchedig Meurig Llwyd. Cafwyd gwasanaeth pwrpasol iawn a hynod ddefosiynol ac yna gollyngodd Maer y dref, y Cynghorydd Eric Roberts, dorch i'r môr i gofio'r deuddeg. Roedd gweld y dorch yn nofio ar wyneb y dŵr yn brofiad emosiynol iawn wrth gofio mai yn y môr oer a dieithr hwn y daeth bywyd deuddeg o drigolion llethr Elidir ym mro y chwareli i ben. Gwnaed y dorch hardd o flodau gan June Baglin, Trefor, un o swyddogion Clwb Blodau'r Eifl. Cafwyd cyfnod byr o dawelwch a dim ond sŵn y môr oedd yn ein clyw. Ar ôl y gwasanaeth oddi ar fwrdd y Bad Achub cawsom daith ar hyd y glannau mor bell â thrwyn Cilan cyn troi yn ôl i ddyfroedd Pwllheli a chartref y Bad Achub. Diolch i bawb ym Mhwlheli am gyfleu y cofio mor fyw a pherthnasol.

Y COFIO YN LLANDINORWIG

Ar ddiwedd y prynhawn, tua hanner awr wedi pump, aeth rhai o deuluoedd y rhai a foddwyd o amgylch y beddau yn y fynwent. Cafwyd gwasanaeth byr wrth y beddau dan arweiniad curad y plwyf, y Parchedig John Gareth Parry. Gosodwyd torchau o flodau ar y beddau gan y teuluoedd.

Ymhell cyn saith o'r gloch yr oedd Eglwys Crist Llandinorwig

dan ei sang; daethpwyd a dau gant o seddau ychwanegol drwy garedigrwydd Ysgol Brynrefail, Llanrug, i'r addoldy fel nad oedd modd ffitio yr un cadair arall! 'Cofio'r Deuddeg' oedd thema'r gwasanaeth ac roedd y gwasanaeth oll mewn llyfrwasanaeth pwrpasol. Yn arwain y gwasanaeth oedd y Parchedig John Gareth Parry a Tegid Roberts; arweinydd y gân oedd Cledwyn Jones, Penrhosgarnedd, a'r organydd oedd Cyril Williams, Caernarfon. Darllenwyd y llith gyntaf gan Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen, a'r ail lith gan Mrs Catherine Hughes, Y Felinheli (roedd y brodyr Richard a Thomas Hughes, Tanybwllch a foddwyd yn frodyr i William, sef taid Mr Kenrick Hughes, priod Mrs Catherine Hughes). Yn ystod y gwasanaeth arweiniodd Esgob Bangor, Dr Barry Morgan, wasanaeth arbennig ger cofeb y deuddeg ac yna gosododd dorch o flodau ar y gofeb. Daeth y seremoni i ben wrth i sŵn corned Rhodri Elidir Tomos, Trefor, gael ei glywed drwy'r Eglwys gan greu awyrgylch arbennig wrth gofio'r deuddeg. Rhoddwyd yr anerchiad yn y gwasanaeth gan y Canon Idris Thomas, Trefor, Deon Gwlad Arfon, a chafwyd ganddo hanes y noson hon ganrif union yn ôl wrth i deithwyr y trip ddychwelyd yn ôl i Ddinorwig. Yna mewn araith hynod afaelgar cyflwynodd y Canon R. Glyndwr Williams, Bangor, gopi o'r llyfr *Pêl Goch ar y Dŵr* i'r awdur, sef y Canon Idris Thomas ac yn y llyfr y geiriau canlynol gan Canon Glyndwr: 'Cyflwynais y copi cyntaf o'r llyfr hwn i'r awdur gyda mawr glod yn Eglwys Llandinorwig yng ngwasanaeth nodedig Cofio'r Deuddeg, nos Iau, Gorffennaf 1af, 1999.'

Yn ystod canu un o'r emynau, sef 'Mewn stormydd di-ri'

NOSON GERDDOROL

gyda

Côr Meibion y Fflint

Tim Ward (Tenor)

Donna Bateman (Soprano)

Haydn Jones (Bariton)

Rianka Boumeester

(Cyfeilydd)

yn EGLWYS ST. PADARN

LLANBERIS

nos SUL, 12 MEDI

am 7.30 o'r gloch

Mynediad £4 gan gynnwys rhaglen

Yr elw at Gronfa Atgyweirio St. Padarn

canodd plant Ysgol Sul, Llandinorwig ddau bennill a hynny yn dra hyfryd. Ar ôl y gwasanaeth cafodd y gynulleidfa gyfle i brynu *Pêl Goch ar y Dŵr* ac ymweld â rhai o'r beddau.

Ymysg teuluoedd y rhai a foddwyd a oedd yn bresennol yr oedd wyres a wyr John Hughes, Tŷ Ddewi (enw amlwg yn y drasiedi), sef Mrs Dorothy a Laurence Arthur a Miss Jennie May Williams, Llandrillo-yn-rhos (Bron Dinorwig gynt) nith i Richard a Thomas Hughes, Tanybwllch. Hefyd yn bresennol yn y gwasanaeth yr oedd Mae Pwllheli, y Cynghorydd Eric Roberts, ac eraill o'r dref.

Ddiwrnod cyn y cofio mawr, 30ain Mehefin, bu'r Canon Idris Thomas yn annerch disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, am y drasiedi gyda'r plant yn gwrando'n astud; ar ôl y sgwrs daeth y plant i Eglwys Crist i weld y gofeb ac i'r fynwent i weld y beddau.

Ar Orffennaf 1af, 1899 daliwyd chwarel a môr mewn drama fythgofiadwy, a ddechreuodd mewn gwynfyd a darfod mewn gwae. Drama wir ac ysgytwol yw hon a bellach mae'r hanes llawn ar gof a chadw. Diolch am y fraint o'i chofio.

Canon IDRIS THOMAS

PEIDIWCH A GORI

AR STORI —

ANFONWCH HI I'R ECO

AM BRYDAU

TSINEAIDD BLASUS

I'W BWYTA GARTREF



LAKESIDE

CHINESE TAKEAWAY

47 STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871840

CEIR
ADAM



HURIO PREIFAT
YN UNIG



LLEOL NEU HIRBELL



LLANBERIS
871539

LONDON GARAGE

FIAT

CWM-Y-GLO

FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT

POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH

GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD

GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234

neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.

Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

PRIODAS. Priodwyd Lois Pritchard, Glanmoelyn a Stephen Wiggins o Stoke-on-Trent yn ddiweddar ac maent wedi cartrefu yng Nghlanffynnon.

Priodwyd hefyd Gwen Jones, Stad Tal-y-bont a Myfyr o Fethel ac maent hwythau wedi cartrefu yn Afon Rhos. Pob dymuniad da i'r ddau gwpl.

DIOLCHIADAU. Hoffai Myfyr a Gwen, 12 Afon Rhos ddiolch i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am y llw anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna Arthur a Dilys Jones, 18 Hafan Elan ddiolch i'w cymdogion, teulu a'r holl ffrindiau am bob dymuniad da a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt tra oedd Arthur yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Clatterbridge.

Dymuna teulu'r ddiweddar Nancy Jones, (Madryn gynt) ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y gofal a gafodd yng Nghartref Neysio Penisarwaun ac i feddygon teulu Meddygfa Waunfawr a Llanrug. Diolch yn arbennig am y swm sylweddol o £730 a dderbyniwyd tuag at Gronfa Gofal Crydcymalau Cangen Caernarfon.

Dymuna aelodau'r Urdd Ysgol Gynradd Llanrug — y grŵp dawnsio gwerin a'r ddeuawd Emma a Debbie — ddiolch yn fawr am eich cyfraniadau i'w galluogi i fynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar. **DYMUNIADAU GORAU** i Mrs Eluned Jones, 13 Hafan Elan a Miss Olwen Price, 8 Hafan Elan y ddwy ohonynt yn Ysbyty Gwynedd; hefyd i Mr Arthur Jones, 18 Hafan Elan sydd newydd ddychwelyd o Ysbyty Clatterbridge.

PROFEDIGAETHAU. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Mr Merfyn Williams, Eirlys ac Ian, Penterfyn, Ffordd yr Orsaf yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a mam yng nghyfraith annwyl iawn, sef Mrs Gaynor Williams.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Mrs Mair Parry, Tir Na Nog, Brynmoelyn a'r teulu yn eu colled trist yn dilyn marwolaeth ei thad yn y Fron.

LLONGYFARCHIADAU

— i Donald ac Eluned Owen, Ffordd yr Orsaf am ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed Megan Haf i Carolyn a Kevin, chwaer fach i Huw Peris ac Angharad Mai;

— Mair Pitts, Y Gelli, Ffordd yr Orsaf am basio arholiad gradd 2 mewn theori gydag anrhydedd — da iawn Mark;

— i Ceri Meredydd, Glan Gors, Ffordd Glanffynnon am fod yn llwyddiannus yn arholiad piano, gradd 3. Mae'n cae ei hyfforddi gan Wendy Thomas, Waunfawr. Da iawn, Ceri, dal ati;

— i Tim Williams, Fferm Minffordd ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Môn. Enillodd wobwr Celfyddyd Gain am ei ffotograffau arbennig wedi eu tynnu yn y nos yn ardal y chwareli. Yn barod mae Tim wedi cael cryn lwyddiant yn arddangos ei ffotograffau mewn nifer o orielau yng Nghymru a Lloegr ac hefyd yn Sydney, Awstralia. Ar hyn o bryd mae'n dilyn cwrs MA yng Ngholeg Casnewydd. Dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

Y SEFYDLIAD COFFA. Mae gweithgaredd codi arian ar gyfer addasu'r Sefydliad yn Ganolfan Gymdeithasol i'r pentref yn mynd rhagddo'n ardderchog. Dros yr wythnosau diwethaf bu gwirfoddolwyr yn casglu o dŷ i dŷ drwy'r pentref yn dilyn ymweliad i roi taflen wybodaeth am yr ymgyrch i bob un o'r trigolion. Casglwyd swm anrhydeddus, a dymuna'r Pwyllgor ddiolch i holl drigolion Llanrug am gyfrannu mor hael tuag at yr achos. Mae'n bosibl fod rhai wedi bod oddi cartref yn ystod y casglu, ond mae croeso i chwithau gyfrannu os ydych yn dymuno. Gellir anfon eich cyfraniadau i Goronwy Hughes (Trysorydd y Sefydliad), Afon Rhos, Llanrug.

Eisoes trefnwyd cystadleuaeth pêl-droed 7-bob-ochr ar Gae Eithin Duon, trwy ganiatâd caredig y Clwb Pêl-droed. Er mai dim ond pedwar tîm a benderfynodd ymgiprys am y darian, ac er i law amharu peth ar y noson, casglwyd swm da o arian ac y mae cryn edrych ymlaen am gystadleuaeth y flwyddyn nesaf!

Dydd Sadwrn, 21 Awst, trefnwyd cystadleueth golff ar faes Tyddyn Mawr gyda nawdd a chymorth y

perchennog, Meirion Hughes. Bu cystadlu brwd o ddeg y bore hyd hanner awr wedi saith y nos mewn tri o gategoriâu gwahanol. Credir mai dyma'r gystadleuaeth gyntaf o'i bath i'w chynnal yng Nghymru, a denwyd nifer o drigolion y pentref i roi cynnig ar y gêm am y tro cyntaf (ond nid y tro olaf!). Bu dros gant o gystadleuwyr profiadol a rhai hollol di-glem yn palu'r maes, a dychrynwyd sawl iâr ddwr yn y llyn wrth i beli chwibannu dros eu pennau. Mae tebygolrwydd fod y gwenoliaid wedi 'mudo'n gynnar o ardal Crawia eleni.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco* ddod o'r wasg, bydd trigolion Llanrug wedi treulio pnawn a nos ar fuarth Tafarn Pen Bont yn gwledda ar gig mochyn ac yn gwrandao a dawnsio i grwpiau lleol.

Yn ystod mis Medi bydd taith feiciau nodedig yn cael ei threfnu ar hyd Lôn Lâs Eifion — mae croeso i blant a rhieni gymryd rhan a threfnir i gario'r beics o Lanrug i'r cychwyn yn Llanwnda os bydd angen.

Ddiwedd Awst hefyd daeth y newyddion calonogol bod grant sylweddol wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd pendant y dechreuir ar y gwaith addasu cyn diwedd y flwyddyn bresennol.


Mae arddangosfa a ffair grefftau i'w chynnal yn Neuadd Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, 13 Tachwedd (gweler hysbyseb yn y rhifyn hwn) ac mae croeso i rai sy'n ymddiddori mewn unrhyw grefft ddod yno i arddangos neu i werthu eu gwaith. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug.

Fe welwch, felly, bod y freuddwyd o gael Canolfan Gymdeithasol deilwng yn y pentref yn llawer nes i'w gwireddu, ond criw bychan o wirfoddolwyr sy'n ffurfio'r Pwyllgor a byddai cynnig cymorth o unrhyw fath yn hwb sylweddol — un ai i godi arian neu i helpu gyda'r gweithgareddau. Erbyn hyn dim on £12,000 o'r cyfanswm o £181,000 sydd ar ôl heb ei gasglu, ac mae nifer o geisiadau am grantiau ariannol yn cael eu hystyried gan wahanol gyrff — ac, wrth gwrs, mae'r gweithgareddau'n parhau.

YMDDEOLIAD. Erbyn i'r rhifyn nesaf o'r *Eco* ddod o'r wasg bydd Miss Beryl Thomas wedi ymddeol o'r Swyddfa Bost yn Llanrug a hynny wedi oes o wasanaethu trigolion y pentref. Mae nifer o'r cwsmeriaid yn teimlo y dyllid cydnabod ei gwasanaeth am gynifer o

flynyddoedd i genedlaethau o drigolion y pentref. Mae'n fwriad cyflwyno rhodd iddi ar ei hymddeoliad, ac os oes unrhyw un yn teimlo fel cyfrannu i'r gronfa, gellir gadael cyfraniadau gyda Mrs Dilys Jones, Hafan Elan; y Cyngorydd Charles Jones, Tyddyn Rhuddallt neu Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant — y ddau olaf, gyda llaw, wedi cael profiad o weithio yn y Post tra'n fechgyn ysgol.

CLWB CERDDED YSGOL LLANRUG. Dros fisoedd yr haf trefnwyd teithiau cerdded gan Gyfeillion Ysgol Gynradd Llanrug er mwyn dod i adnabod gwahanol lwybrau cyhoeddus y fro. Ymwelwyd ag ardaloedd Tan-y-coed, Pontrug, Penisarwaun a Dinorwig. Cafwyd cryn antur yn ymweld â Ffynnon Cegin Arthur, gyda rhai o'r plant lleiaf yn diflannu o'r golwg mewn tyfiant! Yno hefyd daethpwyd ar draws planhigion llawn arogleuon na wyddai neb yn hollol beth oeddent. Ond bu Tegid Roberts yn chwilota mewn llyfrau planhigion a daeth i'r casgliad mai myrtwydd (*bog myrtle*) oedd y planhigyn aromatig oedd yn tyfu ym mhobman ar y gors.



Rhai o'r criw ar y daith i Ffynnon Cegin Arthur yn ymladd trwy'r drysni.

MERCHED Y WAWR LLANRUG

'Diwrnod o Waith'

yng nghwmni un o'r aelodau

yn **YSGOL GYNRADD LLANRUG**
NOS FAWRTH, 14 MEDI 1999

am 7.30 o'r gloch

CROESO CYNNES I AELODAU NEWYDD

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc


**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**



Blodau

o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

NEWID AELWYD. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu rhai teuluoedd yn brysur yn pacio ac yn 'mudo i gartref newydd o fewn y pentref, ac eraill yn ymgartrefu yma o'r newydd. Dymunwn yn dda ichi ar ei aelwyd newydd. Croeso i David Lewis a'i deulu bach yn ôl i'r Waun i fyw. Maent wedi ymgartrefu yn Tegfryn.

CROESO O'R YSBYTY. Bu Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn; Mrs Angela Parry, Bryn Golau; Mrs Thornton, Pant Gwyn; Mrs Eurwen Jones, Cynefin; Miss Karen Parry, Bro Waun; Mrs Rhian Jones, Tref Eilian; Mrs Joyce Steel, Pant Waun; Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris; Mr Richard Charge, Lliffon; a Mr Wilff Jones, Treflys yn derbyn triniaethau yn yr ysbty, ond da cael dweud eu bod gartref erbyn hyn. Dymunwn wellhad buan iddynt.

Anfonwn ein cofion at Miss Jane A. Owen, Bod Gwilym a Mrs Southworth, Gwynant, y ddwy ohonynt wedi cael damweiniau yn eu cartrefi ac yn gorfod cael triniaethau; ac at Mrs Morris Lewis (Tŷ Newydd gynt) sydd yn Ysbyty Eryri.

Torrodd Manon Eluned Tref Eilian; Gill Brown, Gwelfor; a Deion Jones, Tan-y-coed, eu breichiau mewn damweiniau. Gobeithio yn fawr eich bod wedi gwella.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Robin Williams, Bryn Difyr yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, John Blaen Ffridd gynt; ac at Miss Eirlys Jones, Maelor yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Emyr Jones, Ty'n Ceunant gynt; ac at Mr Robin Roberts, 9 Bryn Golau ac Evan Wyn Roberts, Ael-y-bryn yn eu brofedigaeth o golli eu brawd, low, a fu'n gweithio ar fferm Ffridd Felan. BEDYDD. Yng Nghapel Croesywaun, fore Sul, Gorffennaf 18, gyda'r Parchg Dafydd Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Lucy, merch fach Siân a Graham, Pennant, Stâd Bod Hyfryd.

DATHLU PEN-BLWYDD. Ychydig yn ôl bu Sioned Jones, Heulfryn yn dathlu ei 18 oed ac yn ystod yr haf bu Edryd Williams, Gwernydd; Lowri Edward, Melin-y-wig; Elaine Paul, 'Rala; a Rhian Griffith, Melfyn, Stad Tŷ Hen yn dathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Dathlu cyrraedd ei 80 oed y bu Mrs Betty Hughes, Collfryn; Mrs Ovary, Pant y Waun yn dathlu cyrraedd ei 93 mlwydd oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da a bendith iddynt i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Ieuan Parry, 8 Stad Pant Waun ar lwyddo yn yr arholiad theori cerdd; ac i Lowri Hughes, Pendas Eithin ar lwyddo gyda theilyngdod yn arholiad gradd 3 piano.

Llongyfarchiadau i'n pobl ifanc ar eu canlyniadau arholiadau da.

Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cychwyn gyrfa newydd mewn ysgol, coleg a swydd, ac i'r rhai fydd yn canlyn ymlaen â'u gyrfa.

Roedd hi'n braf gweld llawer o wynebau yn ymweld â'r pentref yn ystod yr haf ac hefyd gweld lorwerth, Heli a'i deulu adref o Ynysoedd y Caymen.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Hughes, Collfryn ddiolch i bawb am y llu cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Nancy Jones, Madryn gynt, Llanrug ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y gofal a gafodd yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun; ac i feddygon teulu Meddygfa Waunfawr. Diolch yn arbennig am y swm sylweddol o £730 a dderbyniwyd at Gronfa Gofal Crydcymalau, cangen Caernarfon. DIOLCH i Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn am wirfoddoli gyda'r gwaith o gasglu'r Eco o'r mannau plygu.

DIOLCH. Dymuna Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 93 oed.

ENILLWYR CLWB 300 am fis Gorffennaf: £40 Mrs Elena Jones, Bryn Meurig; £25 Mrs M. B. Davies, Bryn Eithin; £10 Mr Elfyn Griffith, 6 Tŷ Hen. Mis Awst: £40 Mr Wyn Griffith, Gernant; £25 Mrs R. A. Hughes, 15 Tref Eilian; £10 Mr a Mrs D. Greasley, Minafon.

DIOLCH I'R CYNGOR SIR. Mae'r Cynghorydd Eurig Wyn yn diolch i Gyngor Gwynedd am gytuno i'w gais i osod tawelyddion trafniadaeth mewn strydoedd yn y pentref ac yn gobeithio y bydd modurwyr yn arafu eu cyflymdra. Mae hefyd wedi 'sgrifennu i longyfarch John Gwynedd Jones ar gael ei ethol, gan gangen Plaid Cymru Waunfawr, yn olynydd iddo fel cynrychiolydd i'w ethol fel aelod ar Gyngor Sir Gwynedd.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR. Cynhaliwyd Is-bwyllgor y Fynwent o'r Cyngor ar 30 Mehefin:

Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor fod glaswellt y bloc sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn cael ei dorri wyth gwaith y flwyddyn (rhwng diwedd y gwanwyn a dechrau'r hydref); a bod gweddill y fynwent yn cael ei thorri bedair gwaith yn yr un cyfnod. Hyn i gynnwys torri o amgylch y beddau gyda 'strimmer' lle nad oedd y rhai sy'n gyfrifol am bob bedd unigol wedi gwneud hynny. Penderfynwyd hefyd y dylai yr ymgymerwr sy'n torri'r gwaith gludo'r tocion o'r safle.

Cadarnhawyd na ddylai unrhyw

aelod o'r cyhoedd osod cofeb o unrhyw fath na chladdu llwch heb yn gyntaf gysylltu â Chlerc y Cyngor.

Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor neilltuo llain o dir arbennig ar gyfer beddau i gladdu llwch yn unig.

Penderfynwyd ymgymryd â'r gwaith o dacluso'r Fynwent trwy grafu mwsogl oddi ar y llwybrau a chlirio hen slabiau i un ochr.

Gwnaed argymhellion i newid rhai o reolau a rheoliadau y Fynwent; ac i'w gweithredu yn effeithiol.

Cynhaliwyd cyfarfod llawn o'r Cyngor ar 8 Gorffennaf:

Croesawyd dwy aelod newydd sef, Y Cyng. Carys Jones a'r Cyng. Meg Ellis.

Mynegwyd siom mai dim ond un aelod o'r cyhoedd oedd wedi manteisio ar y cyfle blynyddol i fynychu cyfarfod o'r Cyngor i holi'r Cynghorwyr ar unrhyw fater. Fodd bynnag cafwyd trafodaeth gyda'r un aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol ynglŷn â chyflwr y Fynwent.

Cafwyd ar ddeall mai cyfrifoldeb perchennog y tir oedd sicrhau nad oedd unrhyw ffynnon yn achosi perygl i'r cyhoedd. Gan mai barn y Cyngor oedd mai Cyngor Gwynedd oedd perchennog y tir lle mae Ffynnon pant Gwyn, penderfynwyd codi'r mater unwaith eto gyda'r Cyngor Sir.

Gan fod dau le ar y Cyngor yn dal yn wag ers yr etholiad ym Mehefin, derbyniwyd enwebiadau i'w cyfethol, ac wedi pleidlais gudd, etholwyd Marian Jones a Pat Parry allan o'r pedwar enwebiad a dderbyniwyd. Gan fod Marian Jones yn bresennol (fel aelod o'r cyhoedd) cymerodd ei lle ar y Cyngor yn syth.

Cafwyd cadarnhad fod dau gwli ger Pant Gwyn wedi cael eu clirio gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Cafwyd ymateb gan berchennog Maes Gwersylla Ty'n Ronnen fod lle pwrpasol i gŵn faeddu ar y Wersyllfa, ac mai yn ei dyb o perchnogion cŵn lleol oedd yn gadael i'w hanifeiliaid faeddu ar y ffordd. Penderfynwyd dwyn y mater i sylw Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd o Gyngor Gwynedd gan hefyd crybwyll y baw cŵn sydd ar y ffordd sy'n arwain o'r siop sgldion at yr Ysgol yn benodol, ac ym mhentrefi Waunfawr a Chaeathro yn gyffredinol.

Derbyniwyd holl argymhellion yr Is-bwyllgor Mynwent wedi ei gyfarfod ar 30 Mehefin, ynghyd â un rheol arall ynglŷn â dyfnder claddu i'w gynnwys yn y Rheolau a Rheoliadau newydd. Mae copi o Rheolau a Rheoliadau Mynwent y Plwyf, Betws Garmon ar gael i unrhyw un trwy gysylltu â Chlerc y Cyngor.

Lluniwyd rhestr ddrafft o holl eiddo'r Cyngor, gyda'r gobaith bydd hwn yn cael ei fabwysiadu'n swyddogol wedi trafodaeth yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i gais am Drwydded

Ynadon i werthu diod feddwol yn Siop y Pentref, Bryn Gwynedd ar y sail fod un siop yn y pentref yn gwerthu diod o'r fath eisoes, ac annheg fyddai gwahaniaethu rhwng y ddau.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr Rol Williams, 5 Pant y Waun yn diolch am yr ymateb positif i'w gais am i grynoded o gofnodion y Cyngor ymddangos yn y wasg.

Penderfynwyd cynnal trafodaethau pellach ar ddogfen Parc Cenedlaethol Eryri — 'Diwygiadau yn Dilyn Ymchwiliad i Gynllun Lleol Eryri' — yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor.

Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog Trafnidiaeth, John Prescott AS, i gymeradwyo i Rheilffordd Ucheldir Cymru redeg o Dinas i Borthmadog, penderfynwyd cychwyn trafodaethau gyda Cwmni Rheilffordd Ffestiniog ynglŷn ag effaith y rheilffordd ar bentref Waunfawr.

Penderfynwyd gwrthwynebu cais cynllunio gan Orange Personal Communications Limited i godi poly telegyfathrebu 15m ar dir Bryn Môr, Waunfawr oherwydd bod y polyn yn rhy uchel ac felly yn debygol o amharu ar y tirwedd a'r amgylchedd lleol, a hefyd am fod nifer o bolion eraill yng nghyffiniau Waunfawr a byddai'r Cyngor yn annog y cwmni i ystyried gwneud defnydd o unrhyw gyfleusterau sydd ar gael yn barod.

Penderfynwyd gofyn am brisiau gan gcontractwyr lleol i dynnu y plastr oddi ar lloches bws Croesywaun a'i baentio gyda 'masonry paint' lliw llechen lwyd.

Penderfynwyd fod angen edrych i mewn i or-dyfiant dros lwybr cyhoeddus rhif 12.

Adroddwyd fod caniatâd wedi ei roi i Gwmni Cambrensis i baentio y tu mewn i loches bws er mwyn cael ei ddefnyddio fel rhan o olygfa cyfres ddrama deledu.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar nos Wener, 3 Medi 1999, yn Y Ganolfan, Waunfawr.

LLWYDDIANT PROFFESIYNOL. Llongyfarchiadau i Ann Marston Blaen y Nant ar gwblhau cwrs addysg yn Ysgol Gerdd Frenhinol y Gogledd yn Manceinion. Derbyniwyd Dystysgrif Dysgu gan Fwrdd yr Ysgol Gerdd Frenhinol.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Nia Williams, Plas Bodhyfryd ar lwyddo yn arholiad cerdd, gradd 2, chwarae'r piano.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

LLONGYFARCHIADAU i Alet a Bet Storey ar fod yn daid. Ganwyd merch fach Nadeline Rose i Katy a Tony Storey.

Llongyfarchiadau i bawb yn yr ardal fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau diweddar, a phob hwyl i'r dyfodol.



G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

MARWOLAETH. Bu farw Harland Greenshields, Tyddyn Whisgin mewn cartref yng Nghaernarfon ychydig yn ôl. Yn ogystal â pherchnogaeth fferm ar gyrion Caeathro bu ganddo dir ar Ynysodd y Falkland, Malvinas. Yn ystod y rhyfel di-angen rhwng Prydain a'r Ariannin darlledwyd cyfweiliad diddorol ganddo yn y Gymraeg efo Eurig Wyn yn holi.

RASIWR O FRI. Bu Tim Lloyd, Bodawel yn aelod o dîm brigadau tân Cymru a Lloegr a thorwyd hanner awr o'r record am redeg i gopaon Ben Nevis, Scafell Pike a'r Wyddfa ymhen yr un diwmod. Yn ogystal â thorri'r record bu'r tîm hefyd yn gyntaf yn y gystadleuaeth rhwng lluoedd arfod ac argyfwng Cymru a Lloegr.

SYMUD TŶ. Mae Mr Richard Roberts wedi symud erbyn hyn o'i hen aelwyd, Cefn Rhos, i'w fynglo newydd, Rhandir Mwyn, sydd rhwng Bodawel ac Eryl Cottage. Perchnogion newydd Cefn Rhos yw Dewi a Mair Parry, eu merch Nia, a brawd Mair, Dewi. Mae'r teulu oll wedi symud o Ddolgellau yn dilyn apwyntiad Dewi Parry i swydd yn Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd, Cyngor Gwynedd.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod agored a chyfarfod arferol Cyngor Cymuned Waunfawr yn Y Ganolfan, Waunfawr ar 8 Gorffennaf. Ar yr adeg nid oedd Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i orfodi tenant 1 Bryn y Gof i docio'r gor-dyfiant ar ochr y ffordd. Hefyd bu blwyddyn ers i Gyngor Gwynedd addo torri'r coed ifanc sy'n llesteirio'r gweledfa wrth i geir ceisio troi o Felin Bach hyd wal Glangwna. Bydd y Cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd ailosod y tarmac lle mae'r fynedfa i Pennant a Mur Matthew yn gadael y briffordd. Eleni ni fu Cyngor Gwynedd yn cynnal y gylchfan i'r un safon a fu ac felly nid yw'n atyniad fel o'r blaen.

CYFROL ARALL. Bu Geraint Bowen, Cefn Coed yn brysur sgrifennu unwaith eto. Newydd ei chyhoeddi, yn y gyfres Writers of Wales gan Wasg Prifysgol Cymru, mae ei gyfrol *Welsh Recusant Writers*, sef hanes yr arwy'r Catholig fel Morys Clynog yn adeg yr elid Protestanaidd. Mae'n arolwg ysgolheigaidd sy'n bleser i'w ddarllen a gesyd Geraint

Bowen eu gweithiau yn ei gyd-destun llenyddol yn ogystal â hanesyddol, gyda cynnwys o ddyfyniadau a cherddi yn y Gymraeg.

YN YR YSBYTY. Dyna fu hanes Mrs Mary Henderson, Mrs Nancy Robers, Mrs Mary Albert Jones a Mr Ronald Moore ond da cael dwud eu bod adref erbyn hyn ac yn gwella.

YMDDEOLIAD. Dymuniadau da i Mr Aled Jones, 3 Bryn Gof ar ei ymddeoliad yn ddiweddar. Bu'n gweithio i Barc Cenedlaethol Eryri am flynyddoedd lawer.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL. Dyna oedd hanes Mrs Iona Ceiriog, 4 Erw Wen. Llonyfarchiadau mawr. Roedd Iona yn canu gyda Pedwarawd Cybi ac yn aelod o gôr a ddaeth yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Llonyfarchiadau i'w gŵr, Huw Ceiriog, ar ennill gwobr hefyd gyda Eryl Jones, Bryn Mair yn yr un tîm yn un o'r cystadlaethau 'Wil i'w Wely'. Fo oedd y beirniad pryd enillodd Donna Roberts, 10 Erw Wen wobwr yn un arall o'r cystadlaethau 'Wil i'w Wely'. Hefyd daeth Donna adref efo cadair — na, nid cadair eisteddfodol, ond yn well na hynny — cadair Dafydd Du o'r rhaglen Radio Cymru 'Ram Jam'.

PAPURAU LLUNDAIN. Yn anaml iawn y gwelir enw ein pentref yn un o bapurau mawrion Llundain. Ond, dyna oedd yr hanes ar 16 Gorffennaf pryd, fel rhan o erthygl ar ethol Bryn Terfel fel Brenin Enlli, bu sôn am Dei

Williams (Llwyn Alice) a'i wraig Pauline sy'n byw yn Tŷ Pellaf ar Ynys y Seintiau.

SWYDDI NEWYDD. Pob lwc i Ann Wyn Hughes ar ei phenodiad yn bennaeth y babanod yn Ysgol y Gelli, Caernarfon. Hefyd bydd Mrs Iona Ceiriog yn dechrau ar ei swydd newydd fel athrawes yn Ysgol Bontnewydd.

DATHLU. Cafodd Mrs Dilys Griffith, Delfryn a Mr Aled Jones, 3 Bryn Gof benblwyddi arbennig yn ystod y gwyliau. Gobeithio y cant lawer eto i ddod.

TYNFA FISOL. Enillwyd tynfa fisol Cymdeithas y Cae Chwarae am fis Awst oedd: £40 Alwen ac Ifor Huws, Lleifior (20); £25 R. a M. Chambers Jones, Hafod Wen (94); £15 Tom Evans, Plas Treflan (72); Simon ac Ann Jones, 2 Rhos Bach (93).

RHOS BACH. Mae Simon ac Ann Jones, 2 Rhos Bach wedi symud i'r Felinheli. Rosie Lloyd, mam Tim

Lloyd, Bodawel yw'r perchennog newydd.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu ym mis Medi:

- 5. Parchg W. R. Williams (2)
- 12. Dim gwasanaeth
- 19. Parchg W. R. Williams (2)
- 26. I'w lenwi

Bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau ddydd Sul, 5 Medi, am 11 a.m.

RHEDEG MYNYDDOEDD. Ar ôl ras olaf yn y bencampwriaeth i gopa Elidir Fawr ym mis Awst, roedd Jayne Lloyd, Bodawel, campwraig rhedeg mynyddoedd Cymru a chwweched yng nghynghrair genethod rhedeg mynyddoedd Prydain. Mae hi'n aelod o dîm merched Eryri a ddaeth yn ail ym Mhencampwriaeth y Timau trwy wledydd Prydain.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Cwrs i Fro-garwyr

Oes gennych chi ddiddordeb yn eich cymuned?

Ydych chi'n awyddus i'w gweld yn cryfhau?

Os felly, chi ydy'r math o berson a allai fod â diddordeb mewn cwrs arbennig a drefnir gan **Mantell Gwynedd**, yr elusen sy'n helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Cewch gyfle i astudio prosiectau yn Iwerddon yn ogystal ag ar hyd a lled Cymru. Ceir manylion pellach yn yr hysbyseb isod. Mae'r cwrs yn dechrau ddiwedd Medi.




G W Y N E D D
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

CWRS TYSTYSGRIF MEWN DATBLYGIAD CYMUNED

- ☐ Cwrs i bobl sydd eisiau dysgu efo'i gilydd a chydweithio i newid pethau yn eu cymuned
- ☐ Cwrs i'r rhai sydd am wella amgylchedd, economi a chymdeithas eu hardal.
- ☐ Cyfle newydd i ennill cymhwyster Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Bangor.
- ☐ Cwrs newydd sy'n dechrau ddiwedd Medi eleni ac yn gorffen yn y flwyddyn 2001.
- ☐ Cwrs yn cael ei ddysgu yn lleol, yn y gymuned.
- ☐ Cwrs rhan-amser a hyblyg — yn ystod y dydd, gyda'r nos penwythnosau.
- ☐ Cwrs rhad ac am ddim ac yn cyfrannu at gostau gofal.
- ☐ Cynigir cefnogaeth gyson i fyfyrwyr.
- ☐ Cwrs Cymraeg yn bennaf.
- ☐ Ymweld â'r Iwerddon.
- ☐ Ffrwyth cydweithio rhwng coleg ac asiantaethau a mudiadau datblygiad cymuned yng Ngwynedd.

Manylion: Meinir Jones neu Saran Thomas, Mantell Gwynedd (01286) 672626
Shan Asthon neu Selwyn Williams, Prifysgol Cymru, Bangor (01248) 383224

Cefnogwyr: Awdurdod Datblygu Cymru, Celtec, Cymad, Cymdeithas y Plant, Cynllun Inter-reg, Mantell Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, TEC y Canolbarth.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Croesawu Offeiriad Newydd



Mr Brian Price, Ysgrifennydd Eglwys Crist; Canon Idris Thomas, Trefor, Deon Gwlad Arfon; Mrs Rosina Worth a Mrs Elspeth Griffith, Wardeiniaid Eglwys Crist; Y Parchg John Gareth Parry, curad newydd Plwyf Llandinorwig a Phenisarwaun.

Ddydd Sul, 27 Mehefin, croesawyd y Parchedig John Gareth Parry i'w ofalaeth newydd gan Eglwys Santes Helen, Penisarwaun ac Eglwys Crist, Llandinorwig. Y bore Sul cafwyd gwasanaeth ym Mhenisarwaun a phregethwyd gan y Parchg John Gareth Parry; cafwyd gair o groeso gan y Deon Gwlad, y Canon Idris Thomas, Trefor a chymerwyd rhan hefyd gan y Parchg Tegid Roberts. Yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth cafwyd paned a lluniaeth a baratowyd gan ferched caredig yr eglwys a chroesawyd y curad newydd gan y ddau Warden, sef Mrs Mary Davies a Mr Selwyn Griffith. Yn bresennol yn y

gwasanaeth roedd rhai o aelodau plwyf Caergybi lle bu'r Parchg John Gareth Parry yn gurad ers 1996. Yn yr hwyr yn Eglwys Crist Llandinorwig cafwyd gwasanaeth cyffelyb a daeth amry o Offeiriad ynghyd a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Canon Geraint Vaughan Jones, Aberystwyth a'r Canon William Jones, Llanystumdwy. Trefnodd merched yr eglwys luniaeth ardderchog a chroesawyd y curad gan Mrs Rosina Worth, un o'r Wardeiniaid a Mr Brian Price, Ysgrifennydd yr Eglwys. Ar ran y Ddeoniaeth cafwyd gair o groeso gan y Parchg Roger Donaldson, Rheithor Llanbeblig.

Brodor o Bwllheli yw'r curad newydd ac ar ôl graddio ym Mhrifysgol Aberystwyth aeth i Brifysgol Bangor i dderbyn Tystysgrif Addysg. Bu'n athro a phennaeth Adran Addysg Grefyddol Ysgol Aberconwy am ddeng mlynedd cyn mynd i Dŷ Wescott yng Nghaergrawnt. Treuliodd dair blynedd hapus ym mhlwyf Caergybi lle bu hefyd yn cynorthwyo amryw o blwyfi yn Neoniaeth Llifon a Talybolion. Am gyfnod bydd yn byw yn Tŷ Sant Padarn, Y Rheithordy, Llanberis ond ei blwyf a'i gyfrifoldeb yw Llandinorwig a Phenisarwaun. Dymunir yn dda i'r Parchedig John Gareth Parry yn ei ofalaeth newydd.

Dafydd Wigley ym Mharc Brynteg

(Parc Cartrefi Gwyliau Gorau Prydain)

Dydd Gwener, 2 Gorffennaf bu'r Gwir Anrhydeddus Dafydd Wigley, AC, AS yn agor rhan gyntaf o brosiect twristiaeth sylweddol yn Llanrug.

Buddsoddwyd bron i filiwn o bunnoedd hyd yma ym Mharc Cartrefi Gwyliau Brynteg gan ei berchnogion Talacre Beach Caravan Sales, wedi iddynt brynu'r safle y llynedd gan ddatgan bwriad i'w wneud 'y gorau ym Mhrydain'. Saif Parc Brynteg yn un o'r mannau harddaf yn y Deyrnas Gyfunol, nid nepell o Gaernarfon mewn lle cyn gwledig ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri.

Crewyd 30 o swyddi newydd yn y Parc gan y perchnogion newydd. Gweithredwyd rhan gyntaf y cynllun gwella dwy flynedd gan gcontractwyr lleol Natbuild o Landdaniel, Môn, a'r penseiri oedd Parry Davies o Ddinbych. Paratowyd y cynlluniau ar gyfer ail ran y datblygiad gan bensaer lleol adnabyddus, John Pritchard o Borthaethwy.

Defnyddiwyd cerrig lleol a llechen Bethesda i greu swyddfeydd gweinyddol ac ardaloedd gwerthiant newydd. Ymhlith y gwelliannau eraill y mae estyniad i'r pwll nofio ar ffurf ystafell hau, spa, stafell ffitrwydd, lle chwarae i blant, adeiladau diogelwch, ffyrdd newydd a sylfeini gwell i'r carafanau.

Tywyswyd Mr Wigley o

amgylch y Parc i weld y gwaith tirweddu, y cyfleusterau hamdden dan do a'r llwybrau cerdded drwy'r coed, ynghyd â'r gwelliannau i ardal y llyn a fydd yn ffurfio rhan nesaf y datblygiad.

Un o brif amcanion y cyfarwyddwr, James McAllister, wrth drawsnewid y Parc fu gwarchod byd natur gan alluogi perchnogion y cartrefi gwyliau i fwynhau'r amgylchedd heb ei niweidio. Gweithredwyd cynllun rheoli coedwigoedd dan oruchwyliaeth arbenigwyr o Brifysgol Cymru, Bangor. Gosodwyd blychau adar ac ystlumod, ac mae cynefinoedd newydd yn cael eu creu i annog ffyniant planhigion, pryfed ac anifeiliaid eraill brodorol.

Ymhlith y gwaith tirweddu syleddol, plannwyd 250,000 o gennin Pedr a 50,000 o glychau'r gog, ynghyd â nifer fawr o lwynni, coed a phlanhigion fel gall y Parc gystadlu â harddwch Parc Cenedlaethol Eryri gerllaw.

Croesawodd Mr Wigley y buddsoddiad a'r cyfleon gwaith i bobl leol. Llongyfarchodd James McAllister ar y ffordd sensitif a chydawns â'r amgylchedd ysblennydd, y gwellwyd y Parc.



John McAllister yn dangos y Parc i'r Aelod Seneddol.

THE PANNIER 50 STRYD FAWR LLANBERIS

Ffôn: 870301

DEWCH ATOM AM
FRECHDANAU A
BYRBRYDAU FFRES
A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION
DROS Y FFÔN

Cig Bethel

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS

★
PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS

★
PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Mwynhau y Chwedegau

Bydd nifer o drigolion lleol i'w gweld mewn cyfres ddrama newydd wedi ei lleoli ar ddechrau'r chwedegau sy'n cael ei ffilmio yng Ngwynedd.

Yn dilyn llwyddiant y ffilm 'Porc Pei' ar S4C dros wyliau'r Nadolig y llynedd bydd yr un cymeriadau, a rhai newydd, yn dychwelyd i'r sgrin mewn cyfres chwe phennod a gynhyrchir gan gwmni Cambrensis o Gaerdydd. Teitl y gyfres fydd 'Porc Peis Bach'.

Wynford Ellis Owen sydd unwaith eto'n gyfrifol am y sgript ac ef hefyd sy'n chwarae rhan tad y prif gymeriad Kenneth (sy'n cael ei chwarae gan Trystan Roberts o Frynsiencyn). Mae Kenneth yn parhau i fod yn gannwyll llygad ei rieni, y Parchg a Mrs Donald Parry, ond druan ag o, mae o'n parhau hefyd i symud o un gyflafan i'r llall yn y gyfres hwyliog hon sy'n siŵr o daro deuddeg i wylwyr S4C.

Mae'r 'ecstras' lleol a welir yn y gyfres wedi mwynhau'r profiad o gydweithio â chriw ffilmio. 'Mae wedi bod yn brofiad hapus iawn,' meddai Meira Pritchard o Lanrug. 'Mae'n braf cael cyfle i gyfarfod hwn a'r llall — ac mae'r bwyd yn dda iawn hefyd!'

Dywedodd Ian Eryri Jones, cynhyrchydd 'Porc Peis Bach', fod pethau wedi mynd yn hwylus iawn yn ystod y ffilmio er

gwaetha'r cawodydd trwm o law o dro i dro. 'Mae pawb wedi gweithio'n galed ac rwy'n gobeithio y bydd gwylwyr S4C yn mwynhau'r gyfres,' meddai. Bu'r cwmni yn ffilmio yn Stiwdio Capel Mawr, Llanrug, ac yn ardaloedd Waunfawr, Pontllyfni, Dinas a'r cyffiniau. Uwch-gynhyrchydd y gyfres yw Arwel Ellis Owen, a'r cyfarwyddwr yw Hugh Thomas.

Bydd 'Porc Peis Bach' yn cael ei darlledu mis Ebrill nesaf — y chwedegau yn dod yn fyw yn y flwyddyn 2000.



Rhai o'r 'ecstras' lleol a fydd i'w gweld yn y gyfres deledu 'Porc Peis Bach' ar S4C yn y flwyddyn newydd. O'r chwith i'r dde: Meirion Williams a Ted Roberts o Gwm-y-glo; Meira Pritchard a Grace Wyn Jones o Lanrug.

Siwrnai arbennig . . . i le arbennig



Dafydd Ellis gyda Dafydd Wigley.

Trefnwyd taith arbennig ar drên bach Rheilffordd Llyn Padarn nos Iau, Gorffennaf 15, i gario Dafydd Wigley ac eraill i agoriad swyddogol Cwm Derwen.

Canolfan Coedwig a Bywyd Gwylt ar lan Llyn Padarn yw Cwm Derwen, coedlan wyth erw o goed derw lle mae anifeiliaid a phlanhigion cynhenid yn cael byw'n naturiol. Gellir mynd yno ar drên stêm Rheilffordd y Llyn neu gerdded yno ar hyd Llwybr Cylchdaith Parc Padarn.

Ac yntau'n ymddiddori'n fawr mewn trenau stêm roedd y daith yn plesio'r gŵr gwadd yn fawr iawn. Cafwyd gair o groeso gan Dafydd Ellis, Cadeirydd y Senedd a soniodd yn gwyno a phwrpasol am hanes sefydlu a datblygiad Menter Fachwen dros y blynyddoedd. Wrth i Dafydd Wigley ddadorchuddio'r plac llechen — a gerfiwyd gan Gwilym Williams, Deiniolen — pwysleisiodd mor bwysig yw cydweithrediad hapus rhwng busnesau lleol i sicrhau llwyddiant a ffyniant economaidd yr ardal.

Wedi'r seremoni agoriadol yn y Caban Coed, Canolfan Ymwelwyr Cwm Derwen, ger gorsaf Cei Llydan, arweiniwyd y gwahoddedigion ar hyd Llwybr y Goedwig heibio'r Arddangosfa Durnio lle'r oedd y crefftwr Andrew Davies wrthi'n gweithio gyda'r durn droed hen ffasiwn, heibio'r pwll lle cynhelir sesiynau hapsamplu, heibio'r

guddfan gwyllo adar a lloches y ddraig! Mae yng Nghwm Derwen hefyd Gae Antur a Chwrs Cyfeiriannu a digonedd o gyfleon i wneud gweithgareddau sy'n ymwneud â'r amgylchfyd.

Ar ôl cyrraedd pen y siwrnai mwynhawyd bwffe ardderchog yng Nghaffi Padarn. Paratowyd y wledd gan Gwenda Hughes ac aelodau eraill o staff Menter Fachwen ac roedd yr olygfa o'r caffi ym Mryn Peris, Fachwen, draw dros Lyn Padarn tua'r Wyddfa yn odidog ar noson braf o Orffennaf.

Mae Canolfan Ymwelwyr Cwm Derwen yn un o fusnesau Menter Fachwen, cwmni sy'n cynnig gwaith a hyfforddiant yn y gymuned yma ym mro Eco'r Wyddfa.

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER

PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

RHOSTIO MOCHYN



AR GYFER POB ACHLYSUR

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Gyda saws afal a stwffin
- ★ Efo salad hefyd os mewn rholiau dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

**GLANHAWYR CARPEDI
a POLSTRI**

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

**CARTREF YMDDEOL
DEINIOLLEN LODGE**

Ffôn: (01286) 871073



AR FIN AGOR

HOLWCH AM FANYLION

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263.

TRIP YR YSGOLION SUL. Aeth llond bws am drip i Morecambe eleni a bu'r tywydd yn ddigon ffafriol ac roedd digon o bethau i'w wneud ar gyfer y plant yno. Diolchir i Elizabeth Jones ac Ann Paterson am wneud y trefniadau.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau fore Sul, Medi 12fed, am 10 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau a phob bendith i Rhian Morris a Darren Thomas ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

SIOEAU. Llongyferchir pawb a fu'n llwyddiannus gyda'u anifeiliaid a'u adar yn yr amrywiol sioeau. Fel arfer bydd nifer o wobrwon yn dod i'r pentref bychan hwn.

ARHOLIADAU. Lle mawr i longyfarch sydd gennym eto elni ac rydym bob amser yn falch o weld ein pobl ifanc yn llwyddo. Da iawn chwi, fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau a phob llwyddiant i'r dyfodol.

GRADDIO. Llongyfarchiadau brwd i Sioned Wyn Jones ar ennill gradd B. Addysg ym Mhrifysgol Bangor; ac i Llion Roberts ar ennill gradd B.A. ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch. GENEDIGAETH. Daeth llawenydd eto i Mike a Dot Lamb, 2 Bryn Eglwys ar enedigaeth eu hwyres fach, Caitlin, sef merch fach i Glen a'i wraig, a chwaer fach i William. Deallir fod Yncl Darren wedi gwirioni hefyd.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau mawr i ti, Deian, 3 Bryn Eglwys ar dy lwyddiant mewn arholiad gradd 1 ar y piano; ac i Mary, dy fam, hithau yn llwyddiannus mewn arholiad piano. Daliwch ati, a daliwch ati i ymarfer!

PRIODAS ARIAN. Pob bendith i Nant a Tegid Roberts ar achlysur dathlu eu priodas arian ar 1 Awst. Dymuna'r ddau ddiolch yn fawr iawn am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbynniasant ar yr achlysur arbennig hwn.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Awst a'r enillwyr lwcus oedd: 1, William Jones, 24 Bryntirion; 2, René Morris, 2 Llys y Gwynt; 3, Dafydd Owen, 7 Bryn Hyfryd.

Atgoffir chwi am y Daith Gerdded Llwybrau (noddedig) yng ngofal

Leslie Larsen, nos Wener, 10 Medi, i gychwyn o fuarth yr Ysgol Gymuned am 6 p.m. Darperir paned gan y dynion ar ôl y daith. Felly, ymunwch â ni er mwyn cadw'n llwybrau yn agored. Pob dymuniad da i'n trysorydd, Dafydd Williams, ar ei daith feicio yn Cuba er budd y deillion. Bydd yn beicio 240 milltir ar draws yr ynys gan orffen yn y brifddinas, Havana. Gobeithia godi swm hael tuag at brynu cwn tywys i'r deillion. Ei nod yw codi £2,000, felly os oes rhywun yn dymuno ei noddi cysyllter â Dafydd (01286) 871754. Pob hwyl Dafydd.

WYTHNOS Y CARNIFAL. Bu'n wythnos o amrywiol weithgareddau 23-29 Awst, yng ngofal Eglwys Santes Helen. Llun: Bingo; Mawrth: Gyrfa Chwist; Mercher: Dawnsio Llinell; Iau: Gŵyl Flodau a Mabolgampau gyda'r nos; Gwener: Helfa Drysor; Sadwrn: Carnifal a Sêl Cist Car. Gorffennwyd y gweithgareddau nos Sul gyda Cymanfa Ganu yn yr Eglwys gyda Mair Huws yn arwain a chafwyd eitemau gan Gôr Meibion Dyffryn Peris. Cynhwysir canlyniadau a manylion yr wythnos fyrlymus hon yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

CYFARFOD AGORED. Cynhelir cyfarfod agored am 7 o'r gloch, nos Iau, 23 Medi, yn Neuadd yr Eglwys, dan gadaeryddiaeth y Parchg J. Gareth Parry, gyda'r bwriad o sefydlu cwmni drama yn y pentref. Croeso i bawb sydd â diddordeb. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN. Llongyferchir ein dawnswyr gwerin o Barti Caernarfon ac aelodau o Gôr Caernarfon ar eu llwyddiannau. Yn goron ar y llwyddiannau hyn daeth y Rhuban Glas i Benisarwaun. Rydym oll yn ymfalchïo yn llwyddiant John Eifion ac anfonir ein llongyfarchion gwresocaf iddo ar ei gamp fawr. Braint i rai ohonom oedd cael bod yn y Pafiliwn a theimlo'r wefr o glywed y feirniadaeth a'r canlyniad haeddiannol. Wel, sôn am glapio, y gweiddi o falchder a'r dagrau o lawenydd. Ie, ni piau enillydd Rhuban Glas olaf y ganrif, olaf y mileniwm. Pob dymuniad da yn y mileniwm newydd John Eifion.

PLYGU'R ECO. Hoffwn eich atgoffa'n garedig mai Penisarwaun fydd yn plygu rhifyn Hydref, yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, 30 Medi o 5.30 p.m. ymlaen. Taer erfynnir am unrhyw gymorth gan fod y baich o ohebu, nôl y rhifyn o'r wasg, ei osod ar y byrddau a chymryd rhan gyda'r ffyddloniaid yn y plygu, yn

gallu bod yn feichus. Diolch i chwi am eich cydweithrediad — (Gohebydd)

TEYRNGED I'R DIWEDDAR LESLIE JONES, MEILLIONYDD.

Annwyl Dad, Dyma'r tro cyna 'rioed i mi sgwennu llythyr atoch chi. Fu gen i 'rioed reswm i wneud cynt — bu pwt o nodyn ar gefn cerdyn post neu ben-blwydd y pellaf a euthum erioed at gyflawni tasg o'r fath. Ond mae mentro i ysgrifennu heddiw, o aelwyd fy nghartref — a chithau i fod 'mond rownd y gongl — yn brofiad tra gwahanol.

Roeddech chi'n gymeriad mor fyrlymus a hwyliog — mae'n anodd dygymod â bywyd hebddoch.

Af yn ôl i ddyddiau cynnar fy mhentyndod ac agor y llyfr llawn a lliwgar hwnnw i weld yr holl atgofion melys yn dylifo... ond thâl hi ddim i mi fod yn sentimental — hoffech chi ddim i mi suddo mewn emosiwn. Ceisiaf felly gamu uwchlaw'r dagrau ac edrych yn fwy gwrthrychol ar ddyddiau hapus a gorchestion eich bywyd.

Fe'ch ganed a'ch magu yng nghesail y mynyddoedd yn Waunfawr ac yno'n ddyfn yn y pridd y saif eich gwreiddiau. Wedi derbyn addysg uwchradd yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, buoch yn gweithio yn adran y trysorydd yn y Cyngor Sir am gyfnod cyn penderfynu ailafael yn eich addysg a dilyn cwrs ymarfer dysgu yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

Fel athro yn Ysgol Gynradd Dolbadarn, Llanberis y cofiaf i chi — ninnau bryd hynny'n byw yn Llys Myfyr, Penisarwaun. Nid hir y buoch yno cyn eich penodi'n ddirprwy-brifathro a hapus a dedwydd fu eich cyfnod yno mi wn. Daeth 'pobol Llanbêr' yn agos iawn at eich calon. Byddech yn sôn yn aml am gymeriadau'r pentref ac wrth gwrs am y to o blant a dyfodd o dan eich adain yno.

Wedi tair mlynedd ar ddeg o wasanaeth diflino yno, cawsoch eich penodi'n brifathro ar eich hen ysgol, sef Ysgol Waunfawr. Mae gen i gof byw iawn ohonoch yn eich afiaith rhyw noson am eich bod newydd gael eich penodi i'r swydd! Nid am eich bod yn gadael hen bentre bach Llanbêr, ond am eich bod yn dychwelyd i fro eich mebyd ac am gael y profiad unigryw hwnnw o fod yn broffwyd yn eich gwlad eich hun.

Tipyn o gamp. A dyna ddechrau cyfnod arall hapus a gweithgar yn eich gyrfa — a mawr fu y croeso i chwi yno ac uchel a chlodwiw fu eich parch. Yr hyn sy'n sefyll yn fy nghof i yn ystod eich cyfnod yn Waunfawr yw'r cyngherddau a'r gwasanaethau a fydddech bob amser yn mwynhau eu trefnu. Bu gennych ddiddordeb brwd mewn cerddoriaeth erioed a gallaf eich gweld yn awr yn wên o glust i glust wrth wrando ar y côr yn canu, a gweld eich plant yn cael cyfle i ymarfer eu doniau.

Buasech wedi eich cyffwrdd yn arw gan y llu o lythyrau a chardiau a dderbynniasom gan eich cyn-ddisgyblion a chydweithwyr yn canmol eich brwdfrydedd, eich tegwch a'ch teyrngarwch.

Wedi un mlynedd ar hugain hapus eto yn Waunfawr, bu ichi ymddeol haf 1989 gyda digon o gynlluniau, bwriadau a breuddwydion wedi cronni'n ddestlus dan eich adain. Roeddwn i bryd hynny ar fin geni fy mhlentyn cyntaf, sef lolo, a dyna un freuddwyd yn cael ei gwireddu'n barod, sef o gychwyn gyrfa newydd i chi fel Taid. Buoch yn magu llawer ar lolo, a hogyn Taid fu lolo yn anad dim. Cawsoch lawer o bleser yn bwydo'r elyrch ar y Cei, yn chwarae yn y Parc, ac yn cerdded milltiroedd gyda'r goets. Mae lolo'n dal i gofio am y briwsion yn y bag plastig.

Breuddwyd arall a wireddwyd oedd y freuddwyd o deithio a gweld y byd. Yn syth ar ôl ymddeol fe aethoch chi a Mam draw i'r Unol Daleithiau ac yna i Canada. Byddech wrth eich bodd yn cyfarfod pobl o wahanol ddiwylliannau a gwneud ffrindiau. Buoch mewn cysylltiad ag amryw o'r cyfeillion a wnaethoch hyd y diwedd.

Ymysg eich diddordebau pennaf ar ôl ymddeol oedd chwarae golff a chanu gyda Chôr Caernarfon. Roedd gennych feddwl y byd o'r Côr, ac ni feiddiech fethu'r un ymarfer os nad oedd wirioneddol raid. Credaf iddynt golli un o'u haelodau ffyddlonaf yn och chi.

Ond mae'n rhaid i mi sôn am un freuddwyd y bu i chi ei gwireddu — breuddwyd ddewr iawn a oedd wedi ei phlannu ym mên eich esgyrn ers blynyddoedd lawer. Sôn yr ydwyf, wrth gwrs, am eich penderfyniad o roi eich aren i Dylan fy mrawd. Treuliasoch flynyddoedd yn gweithio o'r galon at Ymchwil yr Arenau ac roedd y cyfle i roi eich aren yn rhywbeth na fydddech byth wedi meiddio peidio a'i wneud. Ac fe roddodd y profiad dawelwch meddwl i chi, a'r teimlad hefyd o fod yn falch — fod Dylan bellach yn rhydd i fwynhau ei fywyd — o'ch herwydd chi.

Ac yna'n raddol bach, fe newidiodd eich byd. Mor greulon yw bywyd! Mae'n anodd deall pam fod rhywun mor ddi-hunan, mor gymwynasgar, mor awyddus a brwdfrydig dros eraill yn cael ei glymu'n sydyn gan afiechyd sydd mor frwnt a chreulon. Edmygaf eich dewrder a'ch goddefgarwch tawel, di-gŵyn wrth i chi ymdopi ac ymgodymu â'ch croes.

Fydd Meillionydd byth 'run fath. Bydd eich cadair yn wag, a mud fydd yr aelwyd, ond erys llu o atgofion melys yn llyfrgell werthfawr ym mhob cwr o'r tŷ.

Diolch, Dad, am fod yn dad mor arbennig. — ANWEN

I eraill rhoes ei orau — yn dawel,

A diwyd drwy'r dyddiau;

Nef yn awr gaiff fwynhau

Noswyl ei gymwynasau.

Wavell Roberts

CIGYDD

London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

MAE'R SAMARIAID YN GWRANDO YN ABBEY ROAD



BANGOR (01248) 354646



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

Y 'Post' yn dychwelyd i'r Cwm

Mae gwasanaeth Swyddfa'r Post ar fin dychwelyd i Gwm-y-glo wedi bwlch o dair blynedd. Dan ofal mudiad pentrefol 'Cyfeillion y Cwm', a chyda chefnogaeth Swyddfa'r Post, disgwylir ailsefydlu'r gwasanaeth yn adeilad Menter Fachwen yng nghanol y pentref yn yr wythnos sy'n dechrau 13 Medi 1999.

Meddai un o Gyfarwyddwyr Cyfeillion y Cwm, Dr Paul Rowlinson, 'Bydd Swyddfa'r Post yn gosod eu cownter ar 9-10 Medi ac rydym yn apelio am arian i stocio'r silffoedd cyn y dyddiad agor. Rydym angen prynu eitemau fel rhewgell yn ogystal â stoc o fwydydd. Buasem yn gwerthfawrogi cefnogaeth ariannol unigolion a busnesau i roi'r fenter gymunedol hon yn gadarn ar ei thraed.'

Lleolir y siop a Swyddfa Post ar lawr gwaelo Tŷ Llundain — yn yr un adeilad â Chaffi Menter Fachwen a agorodd yn gynharach eleni.

Diolchodd Dr Paul Rowlinson i'r gwirfoddolwyr o Gyfeillion y Cwm a fu eisoes wrthi'n brysus

yn glanhau a pharatoi. 'Rydym yn ddiolchgar hefyd am gefnogaeth ymarferol Carol Ann Jones o Gownteri Swyddfa'r Post i'r fenter a Bryn Williams, Tanrallt, Cwm-y-glo gyda'r silffoedd.'

Rheolwr y siop fydd Roger Niblett o Dŷ Manceinion, Cwm-y-glo. Bydd y siop ar agor yn rhan-amser am 15 awr yr wythnos i ddechrau.

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus pellach yn y pentref cyn bo hir i roi cyfle i'r holl drigolion ymaelodi â'r 'Cyfeillion'. Am fwy o wybodaeth, ac i gynnig arian a chefnogaeth, gellir cysylltu â Paul Rowlinson, Min y Nant, Allt Goch, Cwm-y-glo. Ffôn: (01286) 870389.

LLANBERIS (atodiad)

DYMUNA Hannah, gweddw Eurwyn Thomas Jones, Tawel Lan, Llanberis, Maria, ei chwaer a'r teulu i gyd, ddiolch yn fawr iawn i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i'r Parchedigion Gwynfor Williams a Mervyn Price Roberts ac i'r Cynghorydd Glyn Owen am ei gyfraniad, ac i Mr Gwynfor Roberts yr organydd.

Diolch yn fawr am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd at Feddygfa Llanberis.

Diolchwn yn fawr hefyd i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefniadau trylwyr. DYMUNA Mrs Jean Roberts, 13 Stryd Goodman a Mrs Jane

Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch ddiolch yn ddiffuant iawn am garedigrwydd eu teuluoedd a'u ffrindiau yn ystod eu harhosiad yn Ysbyty Gwynedd a thra bu Jean yn Ysbyty Bryn Seiont. Diolch yn fawr iawn.

HOFFAI Doreen Roberts, 50 Maes Padarn ddatgan ei diolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddi ar achlysur ei phen-blwydd ar Orffennaf 29. Diolch yn fawr iawn. DYMUNA Mona, 17 Dôl Eilian ddiolch am bob galwad ffôn, blodau a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi tra bu yn Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn i staff y Ward am eu gofal caredig.

Sundance gan Theatr Bara Caws

Yn ystod mis Medi/Hydref bydd Bara Caws yn teithio cynhyrchiad cymuned newydd sbon, sef drama 'Sundance' gan yr awdur Aled Jones Williams.

Bydd y daith yn cychwyn ym Mhorthmadog, nos Fercher, 15 Medi ac yn teithio cymunedau Cymru hyd at nos Iau, 21 Hydref, gan gynnwys Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, nos Iau, 7 Hydref am 7.30 p.m.

Yr actor yw Jonathan Nefydd a'r cyfarwyddwr yw Ian Rowlands.

Ar y Bocs

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n haeddu bod 'Ar y Bocs'?

Mae Al Fresco yn chwilio am bobl â thalent arbennig sydd heb gael y cyfle eto i ddangos eu dawn ar y teledu. Boed yn gantorion, llefarwyr, dawnswyr, offerynwyr, comedïwyr, consurwyr — dyma'r cyfle i enwebu ffrind a'u gwneud yn seren!

Os ydych chi'n adnabod rhywun sydd â'r ddawn i ddiddanu, cysylltwch â ni ar frys:

AR Y BOCS
AL FRESCO
BLWCH POST 826
CAERDYDD CF11 9WD

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Kelly Roberts, Awelfryn ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed ar Awst 15fed. Llongyfarchwn hi hefyd ar ei llwyddiant yn ei harholiadau Lefel-A. Pob lwc iddi yn y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Siwan Humphreys, Pant Bryngwyn ar ennill gradd BA ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob lwc i'r dyfodol iddi hithau.

LLONGYFARCHIADAU i Matthew Bent, 6 Maes Gerddi ar ennill y wobr gyntaf gyda'i geffyl yn Sioe Eifionydd. Dalier ati Matthew!

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLEN (01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

PLESERDEITHIAU HANESYDDOL

AR FFWRDD

SEREN YR WYDDFA

BARC GWLEDIG-PADARN
Y GILFACH DDU, LLANBERIS



Camwch yn ôl mewn amser ar fwrdd Seren yr Wyddfa.

Mwynhewch daith hamddenol ar gwch dan orchudd ar Lyn Padarn, gyda golygfeydd panoramig o Eryri. Mae'n gyfle perffaith i dynnu lluniau a gwrando ar hanes y cyffiniau.

Bydd y cwch yn hwylio o'r lanfa 200 llath o'r Amgueddfa Lechi a maes parcio Rheilffordd y Llyn.

Oedolion	£3.50
Yr Henoed	£3.00
Plant o dan 15	£2.00
o dan 3	Am ddim
Teulu 2 + 2	£10.00

Mordeithiau Hanesyddol Menai
Holwch ynglŷn â theithiau preifat a mordeithiau estynedig.
Prisiau partion ar gael.
Ffôn: 07974 716418 (dydd)
01248 671156 (gyda'r nos)



Bydd y cwch yn rhedeg bob dydd tan fis Hydref o 11am tan 5pm, os bydd y tywydd yn caniatáu. Mae pob taith yn para 40 munud. Cymeradwyr y cwch gan yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau.



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

SGIPIAU ANFRAG

(ROBIN THOMAS)

- ★ DOMESTIG A MASNACHOL
- ★ SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
- ★ TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
- ★ GWASANAETH 7 DIWRNOD

HEFYD YN DELIO
MEWN METAL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN



Ffôn: **870753** neu **660118**


Symudol: **0498 636559**

TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Bacws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



Miss Arfona Edwards, Mrs Elisabeth Roberts, a'r weinyddes feithrin, Miss Susan Williams oedd yn ymadaeg ag Ysgol Dolbadarn ddiwedd y tymor.

YSGOL DOLBADARN. Roedd diwedd tymor yr haf yn adeg o ffarwelio yn Ysgol Dolbadarn. Roedd Mrs Gwyneth Williams yn ymddeol o'i gwaith fel cogyddes yr ysgol a dymunir ymddeoliad hapus iddi. Penodwyd Rhian Jones yn gogyddes newydd a bydd yn cychwyn ei gwaith ym mis Medi. Wedi blwyddyn gyda ni yn Llanberis mae Miss Arfonwy Edwards wedi cael ei phenodi yn athrawes yn Sir Ddinbych a diolchir iddi hithau am ei gwaith tra bu yma. Ac roedd Prifathrawes yr ysgol, Mrs Elisabeth Roberts, hefyd yn gadael ddiwedd y tymor. Wedi deng mlynedd yn Brifathrawes yn Ysgol Dolbadarn mae hi wedi cael ei phenodi yn Brifathrawes Ysgol Maesincla, Caernarfon a bydd yn cychwyn ei swydd newydd ym mis Medi. Diolchir iddi am ei harweiniad a'i holl waith yn yr ysgol a dymunir yn dda iddi yn ei swydd newydd. Penodwyd Mr Rolant Wynne o Lanrug yn Brifathro newydd yr ysgol a bydd yn dechrau ei waith ym mis Ionawr 2000. Bydd Mrs Eirian Owen yn gweithredu fel Prifathrawes tan hynny. Dymunir yn dda iddi hi ac i Mr Wynne pan ddaw atom. Ac wrth gwrs roedd plant blwyddyn 6 yn gadael ddiwedd y tymor. Dymunwn yn dda iddynt hwythau yn Ysgol Brynrefail ac edrychwn ymlaen at glywed eu bod yn setlo yn dda yno y tymor nesaf. Ond roedd un o'r plant yn mynd dipyn pellach na

Llanrug. Dymunwn yn dda i Dafydd Evans, Cragwel, a'i fam Elaine, sydd wedi symud i fyw i Los Angeles. Gobeithio byddi di'n hapus iawn yno Dafydd, a phob hwyl yn dy ysgol newydd. Edrychwn ymlaen at gael rhywfaint o dy hanes yn fuan iawn. Diolch i'r rhai fu'n paratoi'r bwyd i'w werthu yn y Ganolfan ddiwrnod y Carnifal ac i'r staff a'r rhieni a fu'n gweithio'n galed trwy'r dydd i sicrhau rhywfaint o arian i'r ysgol eleni eto.

PÊL-DROED. Mae'r tymor pêl-droed wedi aildechrau a chyn bo hir bydd timau iau Llanberis yn dechrau eu tymor hwythau. Bydd gennym dimau dan 9, dan 11, dan 13 a dan 15 eleni eto. Os oes unrhyw un yn

awyddus i chwarae i un o'r timau rhowch wybod i un o'r rheolwyr ar unwaith, neu soniwch wrth rywun sy'n chwarae i un o'r timau. **CARNIFAL.** Cafyd Carnifal lwyddiannus iawn eleni eto ddydd Sadwrn, Gorffennaf 17. Roedd cystadlu brwd a phob math o weithgareddau trwy'r pnaun ar Ddôl y Goeden. Er i ni gael glaw yn ystod wythnos y Carnifal roedd hi'n ddiwrnod braf iawn ar gyfer y Carnifal ei hun. Diolch yn fawr iawn i'r pwyllgor sy'n trefnu'r gweithgareddau ac i bawb a fu'n gweithio i sicrhau diwrnod gwerth chweil i'r gweddill ohonom. Daeth tyrfa dda iawn i fwynhau'r hwyl. **CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS.** Bu Mr John Williams, 6 Allt Goch farw yn frawychus o sydyn trwy ddamwain ym mhorthladd Roscoff, Llydaw, ddydd Sadwrn, 10 Gorffennaf. Roedd John yn aelod ffyddlon o'r Côr ers ei sefydlu ddeng mlynedd yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Catherine, y plant a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Dymuniad Catherine oedd i'r cyngor Llanberis gael ei gynnal ac rydyn yn ei hedmygu'n fawr am ei dewrder ac erbyn hyn yn falch ein bod wedi cyflawni ei dymuniad.

Mae gennym le mawr i ddiolch fod y Parchg Philip Hughes, Rheithor Eglwys Sant Padarn, yn aelod o'r Côr ac fe fu'n gymorth mawr i bawb ar y daith. Roeddy Côr i ganu mewn gwasanaeth mewn eglwys Babyddol am 11 fore Sul a phenderfynwyd fynd yno am 10 o'r gloch i gynnal gwasanaeth byr i gofio am John.

Mae ein diolch hefyd i Aneurin Jones, cadeirydd y Côr am ei ofal am bawb a diolchir hefyd i DC Dewi Roberts o Heddlu Gogledd Cymru am

ei ofal o Catherine tra gyda'r heddlu yn Llydaw. Diolch i Jean Roberts am fod yn gefn i Catherine a diolchir i Faer Landerneau, Jean PIERRE-Thomin, am ei eiriau caredig. Diolchir hefyd i Faer Caernarfon, Richard Morris i Jones, am ei gymorth mawr i'r Côr.

Diolchir i Mrs Mair Huws ein arweinydd — roedd yn anodd iawn canu o dan y fath amgylchiadau dwys — ond fe ddaliodd Mair ni gyda'n gilydd; yr un modd i Hefina ein cyfeilyddes. Mae ein diolch hefyd i Emerson ac Awel — buont hwythau o gymorth mawr i'r Côr ar y daith hon.

Yn olaf ein diolch arbennig iawn i eneth arbennig, sef Annie — Annie Le Coz. Bu Annie gyda ni ac yn ein tywys o gwmpas er mwyn i ni gael gweld tipyn o'r wlad. Mae hi'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi iddi dreulio dim ond blwyddyn mewn coleg yn Aberystwyth. Diolch o galon, Annie.

Bu angladd Mr John Williams yng Nghapel Coch, Llanberis, ddydd Iau, 23 Gorffennaf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Philip Hughes a thalwyd teyrnach briodol iwn gan Mr John Hugh Hughes. Diolch yn fawr i'r ddau am eu gwaith trylwyr. Cymerwyd rhan hefyd gan y Côr a diolchwn i Mr Gareth Jones, aelod arall o'r Côr, am ei waith wrth yr organ.

Ein dymuniadau gorau i Mair am wellhad llwyr a buan ac y cawn ei gweld gyda ni yn fuan iawn; hefyd bu Mr Gwynfryn Griffith yn wael ar ôl dod adref ac fe dreuliodd gyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Da deall dy fod yn well, Gwyn.

CAPEL JERUSALEM. Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach a gynhaliwyd ddydd Mercher, 7 Gorffennaf, gyda Hugh R. Jones yn llywyddu, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan y Parchg Huw Gwynfa Roberts am 'Hen Gardiau Post' gyda lluniau a sleidiau ac albwm werthfawr iawn. Cafwyd sylwadau pellach gan yr aelodau a chafwyd lluniaeth ysgafn. Diolchwyd iddo ac i Mair am bnawn cifyr iawn.

Cynhaliwyd cyfarfod hefyd ar ddydd Mercher, 4 Awst, gyda Mr Robert Thomas yn llywyddu. 'Pawb a'i Farn' oedd testun y drafodaeth agored am y gymdeithas heddiw mewn byd ac Eglwys.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Gyfeillach ddydd Mercher, 1 Medi, am 2 o'r gloch a'r gŵr gwadd fydd Mr Alan Taylor, Warden Parc Cenedlaethol Eryri. Croeso cynnes i bawb.



Donna a Nathan, enillwyr y prif dlyswr ym mabolgampau'r ysgol.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymmerir â shafio gwartheg
tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143

PLAS PENGWAITH. Dymuna'r staff ddiolch yn fawr i deulu Mr a Mrs Munro am eu rhodd garedig i gronfa'r staff.

Diolchir hefyd i bawb yn Ysgol Brynrefail a fu mor garedig yn casglu tocynnau bws mini allan o'r papur newydd i ni, ac i bawb arall a fu'n eu casglu dros yr wythnosau diwethaf.

Mae Mrs C. G. Davies, Llanberis a Mr a Mrs H. Roberts, Llanrug wedi dod i aros atom am gyfnod ac estynnwn groeso cynnes iddynt.

Bu Mrs E. Liggins y dathlu ei phên-blwydd yn ystod mis Awst a bydd Mr. R. H. Jones yn dathlu ym mis Medi. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Ddechrau mis Gorffennaf cafwyd pnawn ddydd iawn yn nghwmni Lleisiau Llwydd o dan arweiniad Mrs M. Hughes gyda Mr G. Jones yn cyfeilio. Diolch yn fawr i'r côr am roi o'u hamser i'n diddori.

Bu stondin y Cartref eto eleni ar gae y Carnifal a diolchwn i'r staff a fu'n weithgar iawn yn paratoi. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i'n cefnogi; ac am y rhoddion ar y diwrnod. Gwnaed elw o £450.

Yn ystod mis Gorffennaf cynhaliwyd cwrs lechyd a Diogelwch yn y Cartref gan gynnwys Cymorth Cyntaf, ac ar ddiwedd y mis cynhaliwyd cwrs Hyfforddiant Atal Tân.

Diolch yn fawr i Westy Gwynedd a Phwyllgor Carnifal Llanberis am eu rhoddion i'r apêl bws mini.

Dymunwn yn dda i Ms Delyth Owen sy'n ein gadael ym mis Medi i swydd newydd fel cogyddes yn Ysgol Brynrefail. Bydd colled mawr i'r Cartref ar ei hôl. Pob lwc, Delyth.

Llongyfarchiadau i Sion a Donna ar eu penodiad i swyddi yn y Cartref. Llongyfarchwn hefyd Elen a Steven ar enedigaeth merch fach.

Bu farw Mrs Catherine Smith yn annisgwyl ym mis Gorffennaf. Un o'r Alban oedd Mrs Smith yn wreiddiol a ddaeth i Gymru at ei theulu. Rydym yn cydymdeimo â'r teulu yn eu profedigaeth.

Enillwyr raffl y Cartref ar ddiwrnod y Carnifal oedd: Mrs M. Roberts, Llanrug; Ms L. Pritchard, Llanberis; J. Fairbrother, Caernarfon; Carys Hughes, Pontllyfni; Mrs Powell, Birkenhead; Ann Cumberton, Nant Peris.

Ar 2 Awst cafwyd bore diddorol iawn yn cael ein diddori gan y gantores Rosalind Moore gyda Wyndford James wrth y piano. Mwynhawyd yn fawr gan y trigolion. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am ddod i'n diddori.

LLONGYFARCHIADAU i Adam Rudkin ar ennill graddau A mewn Cemeg, Mathemateg a Ffiseg yn ei arholiadau Lefel-A. Hefyd ar ennill gradd A mewn Cyfrifiadureg Uwch Atodol.

LLONGYFARCHIADAU i Dr Nia Gwyn Griffiths ar ei llwyddiant yn yr arholiad MRCGP yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Hugh O'Donnell, Grove House, Llanberis ar ennill gradd BA (Anrhydedd) mewn Hanes ac Astudiaethau Americanaidd ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl — oddi wrth y teulu oll.

DIOLCH. Dymuna Natalie Griffiths, 37 Dôl Elidir a'r teulu ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion a'r arian a dderbyniodd tra'n frenhines Carnifal Llanberis. Diolch hefyd i swyddogion y Carnifal am wneud y diwrnod yn fythgofiadwy i Natalie.

LLONGYFARCHIADAU i Tomos Parry, Rhiwerfa ar basio arholiad piano, gradd 1, yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

DIOLCH. Dymuna Janice a Meic o Abertawe ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Annie Elizabeth Heslop.

£££oedd i'ch ardal

Mae 'Am y Gorau' yn gyfres newydd ar S4C sy'n rhoi cyfle i froydd, trefi a phentrefi herio'i gilydd mewn cystadlaethau o bob math.

Bydd lle blaenllaw i'r cystadlu safonol traddodiadol fel y corau, partion a'r dawnsio. Ond bydd cyfle hefyd i'r ardalydd ddangos doniau eraill o osod blodau i dynnu llun i drin gwallt. Beth am lunio slogan i Viagra neu gyfansoddi cân newydd sbon?

Bydd buddugwyr y gyfres yn ennill miloedd o bunnoedd tuag at weithgaredd neu achos da yn eu hardal, ond fydd neb yn mynd adre'n waglaw.

Os oes diddordeb yn eich ardal, eich pentref neu'ch tref chi, anfonwch am fwy o fanylion gan nodi eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn, os gwelwch yn dda, at:

TELEDU OPUS
21 HEOL MERTHYR
EGLWYS NEWYDD
CAERDYDD CF14 1DA

Cefnogwch ein
Hysbysebwy'r

Timau'r Gorffennol

Cyfeiriaf at y llun o dîm pêl-droed Ysgol Brynrefail 1924(?) a ymddangosodd yn rhifyn Gorffennaf o Eco'r Wyddfa. Roedd Cledwyn Williams, perchennog y llun yn awyddus i gael enwau rhai o'r aelodau. Gan Hugh Ronald Roberts y cefais enwau dau ohonynt — ei frodyr ei hun — Wil Foulkes Roberts (yr ail o'r dde yn y rhes gefn) a John Roberts (y gŵr sy'n dal y bêl yn y rhes flaen).

Chwaraeodd Hugh Ronald Roberts i dim enwog y Darans yn niwedd y pedwardegau ond daeth yn fwy amlwg i'r genedl fel athro uchel iawn ei barch, llenor a dramodydd gwyb. Adweinid ef a'i dri brawd fel 'Hogia'r Helfa', teulu a gyfrannodd yn fawr i lwyddiant tîm pêl-droed Llanberis. Bu John yn cadw'r gôl i Lanberis a'r Coleg Normal yn nechrau'r ugeiniau. Symudodd i Lloegr yn 1925 lle cafodd wahoddiad i chwarae i'r London Welsh AFC. Cafodd dreial i dîm Amatur Cymru yn Tufnel Park. Yn anffodus i John, roedd gôl-geidwad Caerdydd yn chwaraewr amatur a dyna ddiwedd ar ei obeithion.

Penodwyd ef yn brifathro ar ysgol fawr yn West Ham a byddai'n dilyn tîm yr ysgol fel 'trainer' bob Sadwrn. Byddai ei fag yn drewi o embrication cartra! Gwnâi galwyni ohono hefo wyau ieir, turpentine a finegr gwyn. Roedd yn ddi-guro yn ôl hogia West Ham. Bu'n geidwad y bag rhyfeddol o 1933 hyd 1963. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd daeth yn reolwr tîm bechgyn Essex. Ymhlith y rhai fu'n chwarae iddo oedd Bobby Moore, Martin Peters, Jimmy Greaves a Terry Venables. Bu am flwyddyn yn 'trainer' i dîm bechgyn Lloegr gan drin briwiau chwaraewyr fel Duncan Edwards, David Pleat, Jimmy Melia a Wilf McGuinness. Ond yn ôl John, yr anrhydedd fwyaf a gafodd oedd cael ei wneud yn gadeirydd y Darans ac yn aelod am oes. John Roberts oedd y prif symbyliad y tu ôl i'r llyfr dathlu canmlwyddiant tîm pêl-droed Llanberis. Yn anffodus ni welodd John ddiwrnod cyhoeddi'r llyfr ond bu ei gyfraniad a'i gefnogaeth yn amhrisiadwy. Yn 1990 fe ysgrifennodd John at y Frenhines yn datgan bod Clwb Pêl-droed Llanberis yn gant oed gan ofyn a oedd yn bosibl i'r foneddiges anfon telegram yn ôl ei harfer i'w llongyfarch. Derbyniodd ateb gan swyddog o Balas Buckingham yn datgan nad oedd yn arferiad gan 'Her Majesty' i anfon cyfarchiad pen-blwydd i glybiau, ond meddai yn y telegram, 'Her Majesty thought it was kind of you to write, telling her

about the Club, and the Queen hopes that you and all the Club members will enjoy the centenary year'.

Ganwyd William Foulkes Roberts yn 1904 a bu farw yn 1985 wedi rhoddi oes gyfan i'r gêm bêl-droed. Bu'n gapten tîm Llanberis 1925-26. Fel ei frawd bu'n chwarae i'r Coleg Normal. Ar ôl cwblhau ei gwrs yn y coleg aeth yn athro i Ellesmere Port a chwaraeodd i dîm y dref honno. Cafodd gêm brawf i dim amatur Cymru fel mewnwr chwith. Cynrychiolodd Sir Gaer a Gogledd Cymru ar Bwyllgor Pêl-droed Ysgolion Lloegr. Bu'n gadeirydd y pwyllgor hwnnw ddwywaith cyn ymddeol. Bu'n rheolwr y tîm am flynyddoedd. Enwogion y dydd oedd ei ffrindiau — Stan Cullis, Joe Mercer, Nobby Stiles a Bobby Charlton. Daeth Joe Mercer i angladd Wil Foulkes.

Wil a Harry Stevens roddodd saith swllt i Stan Cullis i brynu 'sgidiau pêl-droed. Daeth a cheiniog o newid iddynt! Ar ôl ei ymddeoliad cafodd ei ethol yn gadeirydd y 'North West and North Wales Sports Council' gan lywodraeth y dydd a chael ei anrhydeddu â'r OBE. Rhyfedd meddwl fod dau gyn-chwaraewr Llanberis wedi cyfarfod dros bryd o fwyd yn Berlin o bob man. Roedd Wil yn Berlin gyda thîm bechgyn Lloegr. Daeth criw o fechgyn ifanc i mewn i'r bwyty. Symudodd un tal, pengoch at Wil gan ei gyfarch mewn Cymraeg Cofi: 'Su'dach chi? Mi welis i chi yn Dolbadarn, Llanbêr, nos Sadwrn dwythal!' Y dyn tal, pengoch oedd Wyn Davies, cyn-chwaraewr Llanberis. Roedd wedi camgymryd Wil am ei frawd John a oedd yng nghinio blynyddol Y Darans. Roedd Wyn ar ei ffordd adref o Rwsia gyda thîm Cymru.

Yn y tridegau y daeth brawd arall i fri fel pêl-droediwr, sef Dafydd Jeffrey Roberts. Daeth Dafydd yn arwr mawr yn y pentref pan sicrhodd y Cwpan Iau am y tro cyntaf i'r Darans drwy sgorio'r unig gôl yn y rownd derfynol yn 1934-35.

'Hogia'r Helfa' — hogia talentog odiaeth mewn sawl maes.

ARWEL JONES

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang

o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi

mewn stoc — allwch chi

fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



PRIODAS. Ar Awst 14 ym Mangor priodwyd Billy a Kaz, 5 Bro Glyder. Cafwyd y wledd yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Diolch i'r rhieni o'r ddwy ochr ac i'r teulu a'r ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion.

BEDYDD. Ar Awst 22 yn Eglwys Sant Peris bedyddiwyd Tomos Dafydd, mab Robin a Jennifer Davies, Coed Belyn, Bethel. Gwasanaethwyd gan y Parchg Philip Hughes.

PEN-BLWYDD. Pen-blwydd hapus i John Roberts, Glanrafon oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed ar Awst 26.

DIOLCH. Dymuna John Wyn, Arthur a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a chwaer annwyl, sef Megan Wyn Hughes, Hafod Gynfor. Diolch yn arbennig i Mrs Eirian Mali a staff Cartref Bron Eryri am eu gofal tyner amdani. Hefyd diolch i'r Parchg John Pritchard a'r Parchg Glyn Morgan am y gwasanaeth yng Nghapel Rehoboth ac yn y fynwent, ac i Mr Myrddyn Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefniadau trylwyr.

TREIALON CWN DEFAID Y NANT. Dynwared camp y llynedd wnaeth tri ymgeisydd yn y Treialon a gynhaliwyd ar 13 a 14 Awst.

Enillodd John Closs y Dosbarth Lleol; John Ryan Griffith, Tal-y-sarn yr Ail Ddosbarth; ac eto i Dafydd Pritchard yr aeth Tarian Gwesty Fictoria. Dyma'r canlyniadau'n llawn — Dosbarth Agored (Cwpan y Brodyr Morris): 1, Medwyn Evans, Llanfachreth; 2, Iolo Jones, Corwen; 3, Elwyn Griffiths, Waunfawr. Ail Ddosbarth (Cwpan Wavell Roberts): 1, J. Ryan Griffith, Tal-y-sarn; 2, Elwyn Griffiths, Waunfawr; 3, Wyn Edwards, Rhuthun; 4, Gwyn Lloyd Jones, Cwmtirmynach; 5, Dafydd Pritchard, Nant Peris. Tarian Gwesty Fictoria: Dafydd Pritchard, Nant Peris. Dosbarth Lleol (Cwpan

Rheilffordd yr Wyddfa a Chwpan Gwesty Dolbadarn): 1, John Closs, Llanberis; 2, Donald Pritchard, Llanrug; 3, John Williams, Bethel; 4, Elwyn Williams, Penisarwaun; 5, Dafydd Pritchard, Nant Peris; 6, W. Arthur Williams, Bethel. Cwpan Rhedwyr Eryri: Medwyn Evans. Tlws Cwmni Tithebaron (gorau dros 50 oed, lleol): John Closs, Llanberis. Cwpan Llwyncoed (gorau dan 21 oed): Gwerfyl Williams. Enillwyd prif wobrau'r raffl gan Darryl Lewis, Caernarfon (£100); 01248 421779 (£50); Tony 677163 (£25).

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

YSGOL FEITHRIN. Diolch o galon i bawb yng Ngwesty'r Heights am y gwaith caled i godi £520 i'r Ysgol Feithrin. Diolch hefyd i bwyllgor Ras yr Wyddfa am y rhodd garedig eleni tuag at yr Ysgol.

LLONGYFARCHIADAU i Hefin a Trudie Pritchard, Tyddyn Alys ar enedigaeth merch fach, Megan Jane, ar 3 Awst. Chwaer fach i Gareth.



Dafydd Pritchard, John Closs a Dafydd Morris (Llywydd y Treialon).

LLWYDDIANT ACADEMAIDD. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant — Gareth Roberts, Glanrafon ar ennill gradd BSc Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Llundain; Gwen Griffiths, 6 Glanrafon Terrace, gradd 8, gwobr uwch mewn ballet yn Academi Frenhinol Dawns yn Llundain; Sandra Plemming, gynt o Nant Ffynnon ar ennill gradd BA (Anrhydedd) mewn rheolaeth gwesty ym Mhrifysgol Caerdydd; Eryl Roberts, Cerrigydrudion ar ennill gradd BSc.

POB LWC i Kate Pritchard, Sioned Angharad, Elin Tomos a Robat Henry sy'n dechrau yn Ysgol Dolbadarn ym mis Medi.

Y CARNIFAL. Cynhaliwyd y Carnifal eleni ar nos Wener, 23 Gorffennaf a chafwyd tywydd ffafriol i gyd-fynd â gwres arferol y croeso. Yn gynharach yn yr wythnos cynhaliwyd Noson Cwis dan ofal Mr Meirion Griffith ac enillwyr y wobyr gyntaf o £20 oedd 'Stan's Chance'. Yn ddiweddarach yn yr wythnos cynhaliwyd Cystadleuaeth Pŵl i drigolion lleol ac enillydd Tarian Goffa Selwyn Davies eleni oedd David Ellis.

Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb a fynychodd ac a gefnogodd y nosweithiau ac yn enwedig i Llinos a Richard, Ty'n Llan am eu cydweithrediad.

Ein beirniaid gwadd eleni oedd Dr a Mrs Robin Parry, Mrs Betty Humphreys a'r frenhines Natalie o Lanberis. Diolchwn yn fawr iddyn am eu cyfraniad hwyliog (ac ariannol) i'r gweithgareddau. Llywydd y noson oedd Mr Gwynedd Roberts a diolchwn iddo am lywio'r gweithgareddau yn ei ffordd unigryw ei hun (er iddo ennill tair gwobr yn y raffl fawr!!).

Daeth teyrnasiad y frenhines Gwenno i ben eleni ac etholwyd Anna Lampard i'w olynu fel 'Brenhines y Nant'. Diolchwn i'r ddwy am harddu'r noson â'u prydferthwch. Arweiniwyd yr orymdaith drwy'r pentref gan Seindorf Llanberis (arweinydd: Mr



Anna Lampard.

Owen Tudur Davies), a Dawnsywyr Morus Llanberis.

Dyma ganlyniadau — Gwisg Ffansi 0-3 (Nant): 1, Jordan; 2, Kate; 3, Sioned, Robat, Gareth. 0-3 (Agored): 1, Ellie; 2, Ayshea; 3, Lois. 4-5 (Nant): 1, Jessica, Emily ac Alice. 6-8 (Nant): 1, Manon; 2, Miriam. 8-11 (Agored): 1, Theron; 2, Carmen; 3, Byron. 11+ (Agored): 1, Nia; 2, Lindsey a Sonia; 3, Kirsty a Sabrina. Oedolion — Brenhinesau'r Pac Cardiau, Iola, Gwenda, Ann J., Ann C. Babi bochgoch: Gethin, Holly, Lowri Katie. Het ffansi: 1, Nia (gydag ymddiheuriadau am ei thafllu i'r bin sbwriel — yn enwedig o gofio mai 'Cedwch Cymru'n Daclus' oedd y thema, ynte, Gwenda!); 2, Lois; 3, John (Rastafarian). Goreuon y Noson: Andrew a Mary.

Canlyniadau'r rاسus oedd — dan 8: 1, Emma; 2, Mathew; 3, Lindsey. Dan 11: 1, Alaw; 2, Gwen; 3, Luke. Ras deircoes: 1, Kirsty a Sabrina; 2, Stephanie a Sioned; 3, Alaw a Gwen.

Diolchir i'r bobl brin rheiny sy'n fodlon goruchwyllo'r sondinau neferus bob blwyddyn ac mae'n dyled yn fawr i bob unigolyn a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i lwyddiant y noson ynghyd â'r canlynol a gynigiodd wobrau ar gyfer y raffl: Gwynedd Restaurant, Spar, Tahmid, Racca, Lloriau Cwm, SMR, Castle Gifts, Outside, Pet Shop, Heights, Dolbadarn, Ty'n Llan, Becws Cwm, Beran, Wavell, Fachell, Formag, Padarn Lake, H. E. Hughes a'i Feibion; Gwesty Victoria, Touchwood, Hairlines, Cae Coch, Chemist Llanberis, Prince of Wales, Piggery Pottery, Llythyrdy Llanberis, Joe Brown, Tŷ Gwyn, Star, DMM, Stone Monkey, Iwan Arfon Jones, Bwyty Chinese, Padarn Pottery, Odyn Copr, Crefft Elidir, Seiont Manor, Rheilffordd Llyn Padarn, Yr Amgueddfa Lechi, Alexandra House, Pete's Eats, Becws Eryri, Meifod, Bontnewydd, Fframia Parc Padarn, London Garage, Siog Gig Allsopp, Y Bistro, Grosvenor, Seiont Nurseries, Midland Banc, Eirian, Bron Eryri, Plas Pengwaith, Eric Thomson, Tŷ'r Ysgol, Parc Cenedlaethol Eryri, Sea Fresh Fish.

Gwnaed elw sylweddol ar y noson a bwriedir rhoi cyfraniad ahel i Apêl Gavin Carr. Rhaid cydnabod ymdrechion diflino'r prif swyddogion — Iola, Cheryl a Llinos ynghyd ag aelodau'r pwyllgor.

Darganfuwyd bag plentyn ar y cae — cysyllter â Iola ar 871457.

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

COFIO'R DEUDDEG. Nos Iau, 1 Gorffennaf, daeth nifer o'r ardal i Eglwys Crist, Llandinorwig i wasanaeth cofio'r deuddeg a foddwyd ym Mhwlheli ar 1 Gorffennaf 1899 tra ar drip Ysgol Sul. Roedd yr Eglwys yn orlawn a chafwyd gwasanaeth cofio cwbl arbennig. Bellach mae'r hanes trist ar gof a chadw er mawr ddiolch i'r Canon Idris Thomas yn y llyfr y bu iddo ysgrifennu, sef *Pêl Goch yn y Dŵr*. Yn ôl a ddeallaf bu mawr werthu ar y llyfr a gobeithio fod pawb oedd am brynu gobeithio cael un. Diolch hefyd i Idris am drefnu'r gwasanaeth cofio a diolch yn arbennig iddo am ei waith caled yn cael yr holl ffeithiau hefo'i gilydd ac am ei gymwynas yn rhoi'r hanes o fewn cloriau llyfr. Mawr ddiolch iti Idris.

DIOLCH. Dymuna'r Canon Idris Thomas ddiolch i bawb a ddaeth i'r gwasanaeth ac a brynodd y llyfr. CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cynhelir pwyllgor o garedigion y Gymdeithas yn y Ganolfan, 9 Medi am 6 o'r gloch. Taer erfynir am eich presenoldeb. DAMWAIN. Drwg oedd gennym ddeall fod Mrs Sioned Lewis, 3 Bro Elidir wedi cael damwain car. Da deall ei bod yn gwella. Brysia wella, Sioned.

GWASANAETH Y SUL. Mae wedi mynd yn beth blynyddol bellach i Eglwys MC a Sardis i uno yn ystod mis Awst mewn gwasanaeth ac felly bu eleni eto. Cawsom y fraint eto eleni o gael ein gwasanaethu gan un o blant yr ardal, sef Mr Norman Closs Parry a braf oedd ei weld yn rhoi sylw dyladwy i'r plant. Hefyd yn yr un oedfa braf oedd cael rhoi croeso i un arall o blant yr ardal oedd wedi troi i mewn, sef Mr Tecwyn Jones

(Ty'n y Fawnog Uchaf gynt). Tecwyn wedi gadael yr ardal ers dros hanner canrif. Gobeithio iddo ef a phawb arall dderbyn bendith yn yr oedfa.

PRIODAS. Ar 7 Awst yng Ngwesty Victoria, Llanberis priodwyd Delwen Haf, merch ieuengaf Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian â Mr David John Owen, mab Mrs P. Reed, Deganwy. Bendithiwyd y pâr ar ôl y briodas gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon. Y morynion oedd Sioned Pennant Parry, Tesni Ruth Owen a'r gwas priodas oedd Mr John Richard Owen. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y telynor Dafydd Huw a Miss Emily Jones wrth y piano. Mae'r cwpl ifanc yn treulio eu mis mêl ar Ynys Cyprus. Mae'r briodferch yn aelod o staff ysgol y babanod Tywyn, Y Fali, a'r priodfab yn aelod o'r Llu Awyr yn y Fali. Bydd y ddau yn cartrefu yn 1 Maes Gwynfa, Bodedern. Pob dymuniad da i'r ddau yn eu bywyd priodasol. DIOLCH. Dymuna Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir ddiolch i bawb am y galwadau ffôn ac am bob cymwynas a dderbyniodd wedi iddi gael damwain wrth ei gwaith. Diolch arbennig i Dr Huw Roberts a Nyrs Bethan am eu gofal ac i swyddogion y Bwrdd Dŵr ym Mangor a Bodffordd.

Dymuna Delwen a David, Bron Eilian ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdeigion am y lluoedd cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

CROESO ADREF. Cawsom gyfle eto yng Nghapel MC i estyn croeso gartref i Mrs Maggie Griffiths, (1 Maes Eilian gynt), Rhydychen. Er ei bod yn ei nawdegau ac ar ei gwyliau bu Mrs Griffiths yn treulio'i Suliau yn addoli gyda ni yn y capel. Gobeithio



Delwen Haf a David John Owen.

y cawn eich gweld yn fuan eto a gobeithio ichwi dderbyn bendith tra'n cydaddoli â ni.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL. Tybed faint sy'n gwybod fod Karen Williams, Y Fali a gynlluniodd ac a wnaeth y Goron Genedlaethol eleni yn ferch i Mrs Mary Williams — neu fel yr adwaenwn ni hi, Mary, 9 Bro Elidir gynt — a'r diweddar Mr a Mrs Owen Jones yn daid a nain iddi. Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei gwaith cywrair. Roedd y goron yn werth ei gweld. Tybed hefyd faint sy'n gwybod fod Ifor ap Glyn a enillodd y goron hardd â chysylltiad a'r ardal. Roedd nain Ifor, sef y ddiweddar Mrs Gwen Owens wedi

ei geni a'i mhagu yn Nhy'n Pwll ac roedd tad Norman Closs Parry a nain Ifor yn gefnder a chyfneither. Felly, fe welwch fod yr hen ardal hon â chryn ddiddordeb yn Llanbedrgoch eleni.

Llongyfarchiadau hefyd i Meilir Tomos, mab y Canon a Mrs Idris Tomos ar ennill y wobwr gyntaf ar ganu corn. Mae Idris, wrth gwrs, yn fab i Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir a hithau'n nain i Meilir.

Llongyfarchiadau i Mr John Eifion Jones ar ennill yr unawd tenor ac yna mynd ymlaen i ennill y Rhuban Glas. Mae John Eifion, wrth gwrs, yn briod â Marina Tŷ'r Ysgol.

Cymdeithas Brodwaith Cymru

Ffurfiwyd y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd gyda'r bwriad o sefydlu canghennau trwy Gymru. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o gangen Môn ac Arfon yn ôl ym mis Mawrth gyda dau gwr, 'Brodwaith Crewel' gyda Mrs Myra Pierce; a 'Hen Bwythau — Brodwaith Newydd' gyda Mrs Joyce Jones. Cafwyd cefnogaeth dda iawn i'r cwrs a mwynhaodd pawb y diwrnod o hyfforddiant yn eu mamiaith.

Mae rhaglen ddiddorol wedi'i threfnu ar gyfer yr hydref gan ddechrau gyda cwrs Brodwaith Crewel ar Fedi 11eg. Mae'r cwrs yma i ddechreuwyd a dilyniant i'r rhai fynychodd y cwrs ym mis Mawrth. Lle i bymtheg sydd ar y cwrs, sy'n cael ei gynnal ym Mhili Palas, Porthaethwy. Felly,

y cyntaf i'r felin...! Mae sgwrs gan Mrs Enid Roberts wedi ei drefnu erbyn Hydref 14eg gyda bwffe ysgafn yn dilyn, ac yna bwriedir trefnu gwibdaith i ymweld ag Arddangosfa neu Ganolfan Creffttau ym mis Tachwedd. Am fwy o fanylion ynghylch y cwrs cysylltwch â Mrs Averill Thomas (01286) 353962.

DRAENOG

Aeth aelodau Lleisiau Lliwedd i ganu mewn priodas yn ddiweddar. Cafodd un o'r merched anffawd bach yn y capel pan aeth ei throed drwy'r llawr! Roedd yna bydredd yn y pren a hithau'n anffodus wedi sefyll ar y rhan wanaf ohono. Y fath embaras. Ond gwaeth na hynny — fe gollodd hi fusnas gwerthfawr wrth beidio hysbysu pobol y capel fod ganddi stwff da i drin pydredd ar werth mewn siop offer tŷ yn Llanberis.

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Cafodd y grŵp bach hapus yma a'u rhieni lwyddiant mawr ar ôl gweithredu Prosiect Llythrennedd Teulu yn Ysgol Gwaun Gynfi. Enwebwyd hwy ar gyfer gwobr genedlaethol. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN. Llongyfarchiadau cynnes iawn i ddau fachgen ifanc o'r pentref ar ennill y wobwr gyntaf am ddeialog agored yn yr Eisteddfod yn Llanbedr-goch. Enillodd Emyr W. Gibson, 17 Hafod Olau a Martin S. Thomas, Clwt-y-bont (Penlan gynt) y wobwr gyntaf allan o nifer o ymgeiswyr. Gwelsom y ddau hefyd, ynghyd ag Elfed M. Morris, Llechwedd yng nghôr buddugol Ysgol Glanaethwy. Da iawn hogia.

Dyma englyn a glywyd yn un o sesi'nau Talwr y Beirdd yn yr Eisteddfod. Norman Closs Parry, brodor o'r Fachwen, yw'r awdur. Mae'n englyn gwych.

I HOGIA DINORWIG

Ni welir eto dirwedd — yn llwyfan I'w llafur a'u dygnedd.

Estron a meirwon a'i medd,
Adlais lle bu huodled.

Llongyfarchiadau i'r Seindorf hefyd am ennill yr ail wobwr mewn cystadleuaeth glôs yn Nosbarth B. **CYFEILLION EGLWYS CRIST.** Bydd Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist, Llandinorwig yn dechrau tymor newydd nos Lun, 6 Medi. Dyma'r rhaglen am y flwyddyn. Croeso cynnes i unrhyw un ymaelodi.

6 Medi: noson o 'Moes a Phryn' a 'Reflexology' gan Mrs Nant Roberts. 4 Hydref: Swper Cynhaeaf a'r siaradwr gwadd fydd y Parchg John Gareth Parry.

1 Tachwedd: 'Gwyliau yn Madeira' gan Miss Jean Moeller a Miss Margaret Mathews.

10 Rhagfyr: Cinio Nadolig.

5 Ionawr 2000: Sgwrs a sleidiau am 'Amdo Turin' gan y Parchg Gordon Campbell Owen.

7 Chwefror: 'Hen Deuluoedd Gwaun Cwm Brwynog' gan Mr Rol Williams, Waunfawr.

6 Mawrth: Dathlu Gŵyl Ddewi gyda Mr a Mrs J. M. Griffith, Bethel, 'Ac ni fu dwthwn fel y dwthwn hwn.'

3 Ebrill: Sgwrs am Llanberis gan Mr Ken Jones.

3 Mai: Taith Gerdded.

5 Mehefin: Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

CYNGERDD MAWREDDOG. Cynhelir y chweched cyngerdd blynnyddol am 7.30 p.m. yn Eglwys Crist, Llandinorwig, nos Sul, 26 Medi. Dros y blynnyddoedd diwethaf bu'r cyngherddau hyn, a drefnir er mwyn codi arian tuag at gynnal adeilad Eglwys Crist, yn hynod lwyddiannus. Eleni eto mae y gobeithion yn uchel am gyngerdd yr un mor llwyddiannus. Yr artistiaid gwadd fydd Mrs Iona Stephen Williams, y contralto enwog o Fôn ac enillydd y Rhuban Glas yn 1998; Côr Meibion Dwyfor; Ffion Orwig Thomas o Lanrug; Elfed Morris o Ddeiniolen; Huw Alun Foulkes, Bethel; a rhai o aelodau Seindorf Arian Deiniolen. Yr arweinydd fydd y Parchg Gareth Joh Parry a'r

cyfeilydd fydd Mrs Glenys Griffith, Bethel. Bydd tocynnau ar werth gaen aelodau'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yn fuan ym mis Medi. Dowch i'n cefnogi ac i fwynhau gwledd o ganu.

DIOLCHIAU

Dymuna Mrs Catherine Hughes, 41 Y Wern, Y Felinheli a'i brodyr, Walter a Wyn, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Mary Jones (Anti Mary i'w chydabod), 13 Craig Menai, Bangor. Diolch am y cardiau a'r galwadau ffôn a'r ymweliadau. Diolch yn arbennig am y rhoddion a dderbyniwyd er cof amdani oddi wrth gyfeillion yn Neiniolen, Llanrug a'r holl ardal. Prynwyd dau deledu a dwy ffan i Ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd gyda'r rhoddion hynny.

Dymuna teulu'r ddiweddar Nancy Jones, Madryn (gynt), Llanrug ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y gofal a gafodd yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ac i feddygon teulu Meddygfa Waunfawr a Llanrug. Diolch yn arbennig am y swm sylweddol o £730 a dderbyniwyd at Gronfa Gofal Crydcymalau, Cangen Caernarfon.

Dymuna Nancy, Jennifer ac Ian a theulu y diweddar Richard W. Price, 45 Rhydfadog ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli Dick. Diolch i'r Parchg Gareth Parry a'r Parchg Tegid Roberts am eu



Euros W. Williams, Hafle, Rhos y Faenol yn neidio bynji i gasglu arian i gronfa ei ffrind, Eilir W. Williams. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

gwasanaeth ac i Mr E. W. Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefniadau.

Dymuna Hayley Williams ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ennill gradd B.Th. (Anrhydedd) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Dymuna Beryl ac Owie Hughes, 50 Rhydfadog ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.



Y Frenhines Dionne gyda Sophia a Mandy yn y Carnifal.

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron



11 Rhes Faenol LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynnyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



Sefydlwyd
1980



EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thrédio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513

Dymuna Eilir Wyn Williams, 1 Pentre Helen ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur derbyn ei radd ym Mhrifysgol Salford.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Hannah Jane Thomas, 6 Rhes Marian ddiolch i drigolion yr ardal am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig am y rhoddion o £500 tuag at Feddygfa Deiniolen.

CLWB 100 Y SEINDORF. Enillwyr mis Gorffennaf oedd — 1, Joan Parry, Rhesdai Gwyrfa; 2, Barry Price, Hafod; 3, Dylan Hughes, Rhes Fictoria. Mis Awst: 1, Glenda Morris, Llanrug; 2, Ellis Wyn Williams, Ffordd Deiniol; 3, Elan Williams, 15 Hafod Olau.



Majorettes Deiniolen yn y Carnifal.



Plant bach Ysgol Feithrin Deiniol yw rhain — criw'r bore a chriw y pnawn — yn mwynhau picnic gyda'u Tedi.

Datblygu Cymuned

Annwyl Olygydd, Hoffem dynnu sylw eich darllenwyr at gyfle newydd a gynigir i bobl yng Ngwynedd sydd â diddordeb mewn cyfrannu i ddatblygiad eu cymuned. Mae lle i ugain o bobl ar gwrs newydd a ddarperir gan Brifysgol Cymru, Bangor mewn cydweithrediad â nifer o fudiadau cymunedol yn yr ardal; yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Celtec, Cymad, Cymdeithas y Plant, Cynllun Inter-reg yr Undeb Ewropeaidd, Mantell Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r cwrs rhan-amser yn arwain at gymhwyster Tystysgrif Addysg Uwch mewn Datblygiad Cymuned, sy'n cyfateb i ran un gradd BA. Prif amcan y cwrs yw sbarduno a hyrwyddo gweithgaredd cymunedol, i geisio gwella amgylchedd, economi a chymdeithas ein hardaloedd. Cyflwynir y cwrs mewn 4 neu 5 gwahanol ardal yng Ngwynedd; yn union lle'n dibynnu ar yr ardaloedd sy'n dangos mwyaf o frwdfrydedd. Ym mhob ardal a ddewisir bydd tua pump o bobl yn dysgu efo'i gilydd gyda chefnogaeth person lleol. Ar brydiau bydd y grwpiau ar draws Gwynedd yn dod at ei gilydd a bydd cyfle, hefyd, i ymweld â phrosiectau cymunedol yn Iwerddon lle bydd menter cyffelyb yn rhedeg yr un pryd â'r cwrs yng Ngwynedd.

Mae'r cwrs yn rhad ac am ddim a gellir cynnig peth help at gostau gofal. Bydd yn cychwyn ddiwedd Medi ac yn rhedeg tan y flwyddyn 2001. Dysgir yn ystod y dydd, pen wythnosau neu gyda'r nos yn ôl y gofyn. Gwahoddir y sawl sydd â diddordeb i ddod i gyflwyniad i'r cwrs yn Swyddfa Mantell Gwynedd yng Nghaernarfon am 7.00 p.m., Medi 16eg neu'n y Pafiliwn Criced, Dolgellau, 7.00 p.m., Medi 22ain. Gellir cynnal cyflwyniadau pellach

mewn unrhyw ardal yng Ngwynedd sy'n dangos diddordeb. Mae modd cael manylion pellach drwy gysylltu â'r isod.

Yn gywir,

MEINIR JONES a
SARAN THOMAS
Mantell Gwynedd
(01286) 672626

neu

SHÂN ASHTON a
SELWYN WILLIAMS
Prifysgol Cymru, Bangor
(01248) 383224

DRAENOG

Onid ydi cŵn bach yn betha clyfar? Ar ei thomen ei hunan ar y ffarm yn Nant Peris mae'r ci bach yn dipyn o *frenhinas*, yn cyfarth a chroesawu pawb i'r tŷ. Ond wedi dilyn ei meistras i'r capel un pnawn Sul roedd hi'n stelcian yn ddigon distaw yn y cyntedd rhag i neb sylwi ei bod yno.

Ond wedyn, mae na gŵn bach dwl i'w cael hefyd. Fel ci bach newydd Tŷ Crwn. Roedd ei feistras wedi gweld ei golli un bora, a dyna hi'n galw'r ffrindiau a'r teulu i chwilio amdano. Aed i chwilio am y ci bach rownd y pentref, ond ofer fu'r chwilio. Er chwilio pob stryd a phob cae nid oedd golwg o'r ci bach. Ffoniwyd yr heddlu a'r RSPCA i ddweud fod y ci bach ar goll. Ond amser cinio gwelodd cymydog y ci bach ar y clogwyn dan y tŷ. Roedd y ci bach dwl wedi neidio trwy ffenestr agored y gegin heb sylweddoli fod yno glogwyn yn union o dan y ffenest, ac wedi sgrialu hanner ffordd i lawr y clogwyn. Bu'n rhaid i'r cymydog ddringo at y ci bach i'w ryddhau. Doedd yr hen gi bach fawr gwaeth, diolch am hynny.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau

ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

Agor Siop yn Llanberis



Bryn Terfel yn agor siop newydd Annette a Gwyn Parri, Teithiau Peris, yn Llanberis



Chwarae golff i godi arian i Ganolfan Llanrug y mae rhain. Gweler y stori'n llawn yn 'Newyddion Llanrug'.

Tîm Ysgol Brynrefail

Daeth gwybodaeth ychwanegol i law yn enwi mwy o chwaraewyr tîm pêl-droed Ysgol Brynrefail 1924. Fe gofiwch i'r llun ymddangos yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Dyma'r rhestr — ond yn anffodus nid yn gyflawn.

Rhes ôl o'r chwith i'r dde: Robert Roberts, R.G. Williams; (cyn

Brifathro Deiniolen); ?; Dic Toriad; W. Foulkes Roberts; Gwilym Jones (Llanrwst). Rhes ôl yn eistedd: Griffith Thomas (Ceunant); ?; ?; Rhes flaen yn eistedd: Morgan Thomas Toriad; John Roberts (Helfa); ?.

Os all unrhyw un enwi rhai o'r chwaraewyr eraill cysylltwch ag un o'r golygyddion.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?

Cysylltwch ag

R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216

WALIO
A
FFENSIO

O Fethel i Nepal



Ar 1 Medi roedd Bethan Williams, 18 oed o Fethel, yn wynebu taith hir iawn i Nepal. Wedi iddi lwyddo'n rhagorol yn ei arholiadau lefel-A mewn Cymraeg, Hanes a Drama yn Ysgol Brynrefail nid yw am fentro i'r bywyd colegol ar ei hunion. Ar fyd y ddrama y mae ei golygon ond mae am aros blwyddyn cyn ceisio mentro i'r maes hwnnw. Mynd i Nepal i ddysgu Saesneg i blant yn nhref llam fydd Bethan. Wedi hedfan i Nepal bydd taith o ugain awr mewn bws yn ei hwynebu cyn cyrraedd ei disgyblion. Dosbarth rhyfeddol fydd yn ei disgwyl gan fod yr oedran yn ymestyn o 4 i 16 oed. Tlodaid iawn yw'r

gyfundrefn addysg yn Nepal gydag adnoddau cyffredin yn brin iawn. Yn amlwg, bydd natur gyfeillgar Bethan, a'i dawn llwyfan amrywiol, yn fantais fawr iddi wrth wynebu'r her yma. Mae Bethan yn gobeithio bod yn Nepal am tua saith mis a bydd yn aros gyda theulu lleol ac eisoes fe osodwyd y telerau — £5 yr wythnos am ei chadw a £2 am ffrwythau. Peth prin iawn yw cig yno, gyda'r prif brydau yn cynnwys reis, lentils a cyri llysieuol. Mae'r daith cyfan yn cynnwys teithio, llety, bwyd ac ati, yn costio £2,000. Mae Bethan wedi gorfod codi'r arian ei hun a defnyddio ei chynilion — a hyn yn nturiol mewn gweithgaredd elusennol clodwiw. Mae wedi cael cefnogaeth yn barod ond yn amlwg bydd angen mwy i gyrraedd y nod ariannol. Un o'r gweithgareddau oedd neidio â parasiwt a braf nodi fod Bethan wedi dychwel i'r ddaear yn ddiogel. I'r sawl sy'n ei hadnabod mae Bethan yn ferch fywiog, weithgar a phenderfynol. Dymunwn yn dda iddi yn ei menter ac edrychwn ymlaen am ei 'lithoedd' o ochr arall y byd. Os oes rhywun yn fodlon cyfrannu'n ariannol tuag at gostau taith Bethan gellir cysylltu â hi a'i theulu ar (01248) 671231. Rwy'n siŵr y bydd hi — a'r plant o dan ei gofal — yn manteisio o'r profiad hwn.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cych)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL


CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

CROESAIR MEDI



ENW.....

CYFEIRIAD.....

.....CÔD POST.....

Mae'r saith enw nad oes cliwiau iddynt yn deillio o ddigwyddiad tua amser cinio ar yr 11eg o Awst, a'm hymgais i chwilio amdanynt!

Do'n i ddim yn disgwyl gweld y drydedd gan fy mod yn sefyll arni, nag ychwaith y nawfed gan ei bod yn rhy bell i ffwrdd.

AR DRAWS

10. Anfoneddigaidd (7)
12. Gwrthodwr (5)
14. Yr hylif sydd mewn sinc golchi llestri (3)
15. Cerddoriaeth i gôr(5)
17. ac fe gyfrifir rhai lliwgar gan ambell gôr (5)
18. Cyfeiriad un mewn pentref yn Sir Fôn (7)
20. Hanner hwn! (3)
22. Tymer ddrwg o un sir arbennig (5)
23. Megis hetiau gwrachod (5)
24. Dethol (5)
27. Safnau (5)
29. Capten y llynges o dair ar ddeg yn ôl Ceiriog (5)
32. 22 ar draws mewn pwddin 'Dolig (3)
36. Y criw drwg; priodol (5)
37. Hanner marw yw Daf meddw (5)
38. Dolur (5)
39. Cyrchu o ben ôl buwch (3)
40. Plygu glin (5)
41. Dirwedd (7)
43. Y cyfnod pryd yr arferir edrych ar y saith (3)

I LAWR

1. Pysgod â 'genau' anferth (7)
2. Rhai sy'n gweithredu dros eraill mewn ysgolion? (9)
3. Fe'i gwelir yn Nhir Prins ar S4C (5)
5. Cyfrdroi. Am fod yn wahanol? (7)
7. Gwenwynllyd (7)
8. Mae hwn yn edrych am rywbeth (7)
9. Y perfformiadau gorau (9)
11. Diod o de lemon (7)
13. Steil bensaernïol ac artistig Gorllewin Ewrop rhwng y 12fed a'r 16eg ganrif (5)
19. Chwarren sy'n puro'r gwaed (3)

21. Ennaint yr offeiriad a yrrodd Samuel yn ôl i'w wely? (3)
23. Pwysleisio sillaf yn anghywir (9)
25. Y budd o ddirgel weithredoedd (3)
26. Syr Wynn yn gwneud sens (7)
27. Hogyn Cymraeg o Cairo (3)
28. Dywediadau diarhebol (9)
30. Cefndeuiddwr. Diawl, fe ffrwydrodd (7)
31. Môr uchel yn y gwanwyn (7)
32. Offeryn cerdd distaw? (5)
33. Dyfal (7)
35. Cyn heddiw ond ar ôl ddod! (7)
38. Picell yn creu poen? (5)

CROESAIR GORFFENNAF

Dim ond hanner yr atebion a dderbyniais i groesair Gorffennaf oedd yn gywir, a'r ateb i 14 ar draws, sef 'Hen bryfaid bach pigog - rhai main?' oedd yn anghywir yn y mwyafrif.

Derbyniaf bod BYWION a MYWION yn ffitio hanner cynta'r cliw, ond CYLION sy'n cyfateb i'r cliw cyfan.

Y pedwar ar ddeg hollol gywir felly yw Mair Evans, Caernarfon; Elwyn Evans, Llanfairpwll; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; N. Hughes, Cwm-y-glo; Elfed Evans, Llanllechid; E. E. Jones, Rhoshirwaun; G. Gill, Bangor; Chris Roberts, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; Moreen Lennon, Llanberis; Hywel Griffiths, Awstralia; Nan Owen, Llanberis; Huw Tegid Roberts, Llanrug ac enillydd y mis, sef Dilys A. Pritchard-jones, Ynys, Abererch, Pwllheli. Llongyfarchiadau a'r £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair y mis yma gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE, erbyn 20 Medi, os gwelwch yn dda.

DYDDIADUR MIS MEDI

6. Llun **DEINIOLEN:** Cymdeithas Cyfeillion Llandinorwig yn Eglwys Crist am 7.
7. Maw **PENISARWAUN:** Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn yr Ysgol am 7.
8. Mer **BETHEL:** Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr am 7.30.
10. Gwe **PENISARWAUN:** Taith Gerdded gan bwyllgor y Neuadd. Cychwyn o fuarth yr Ysgol am 6.00 p.m.
12. SUL **DEINIOLEN:** Yr Ysgol Sul yn ailgychwyn am 10 o'r gloch yn festri Ebeneser.
LLANBERIS: Noson gerddorol yn Eglwys Sant Padarn am 7.30.
20. Llun **DEINIOLEN:** Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr. Sgwrs gan Gerallt Lloyd Owen, 'Hwyl y Talwrn'.
BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched. Arddangosfa coginio yng Nghaffi Fferm Cae Coch, Llanberis.
26. SUL **DEINIOLEN:** Cyngerdd Mawreddog yn Eglwys Llandinorwig am 7.30 o'r gloch.
27. Llun **DEINIOLEN:** Cyfarfod agoriadol y Gymdeithas Lenyddol am 7 o'r gloch.



'Ew, joban galad ydi CHWILOTA am y peli golff 'ma . . .' Felly rhaid oedd cael seibiant bach i feddwl am ddulliau eraill i ddod ag arian i gronfa Sefydliad Coffa Llanrug.

RHODDION

£20: Er cof am Ellis Thomas, 13 Ffordd Tŷ Du, Llanberis.
£10: Delwen a David, Bron Eilian, Dinorwig. Marian Jones, Minallt, Bro Elidir, Dinorwig. Mr a Mrs Oswald Davies, Rhyd y Delyn, Llanrug. Jean a Jane Roberts, Llanberis. Dyfrig ac Irfon Thomas, 6 Rhes Marian, Deiniolen.



£5: Gwenlli Williams, 5 Pant y Waun, Waunfawr. Anwen a'r teulu, London House, Carmel. Teulu y ddiweddar Mrs Nancy Jones, Madryn, Llanrug. Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian, Waunfawr. Mr a Mrs A. Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug. Mrs Hannah Jones, Tawel Lan, 2 Ffordd Padarn, Llanberis. Nancy, Jennifer ac Ian, teulu y diweddar Richard W. Price, 45 Rhydfadog, Deiniolen. Mr Cledwyn Parry, Glyder, Ffordd Capel Coch, Llanberis. Mrs Catherine Hughes a'r teulu, 41 Y Wern, Y Felinheli. John Wyn, Arthur a'r teulu, Nant Peris. Janice a Meic, Abertawe.
£3: Beryl ac Owie Hughes, 50 Rhydfadog, Deiniolen. Mona, 17 Dôl Eilian, Llanberis. Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis.
£2: Di-enw, Llanrug.

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

HEFYD

DeliBistro A DELI DOLIG

Ffoniwch am fanylion

Y BISTRO WWW.WELCOME.TO/YBISTRO

FE FYDD YN DDOLIG CYN HIR!
FFONIWCH I GADW LLE I'CH PARTI

CHWARAEON

Home Run . . . o ffwrdd!

Bu'n wyliau gwahanol iawn i mi eleni. Dim Steddod, ac am fis cyfan, dim criced! Dyna beth yw aberth! Y rheswm yw fyd mod draw yn Seattle yng ngogledd-orllewin Unol Daleithiau America. Gwyliau gyda theulu fy chwaer yng nghyfraith. Gwlad ryfeddol yw hon mewn sawl ffordd — ond ar yr agwedd chwaraeon rwyf am ganolbwyntio. Diolch i'r rhyng-rwyd cefais wybod am apwyntiad Mark Hughes fel rheolwr y tîm cenedlaethol. Mae'n sicr y bydd yn apelio'n fwy at y cefnogwyr na Gould ond ni allaf weld unrhyw fantais tymor hir o'r apwyntiad. O gofio ei fod o'n dal i chwarae — i'w glwb ac i'w wlad — nid yw hyn am helpu'r sefyllfa. Sylwi hefyd bod Arsenal yn hel tîm, gan arwyddo ymosodwyr o safon — dim mwy o boring, boring Arsenal, efallai! Sôn am bêl-droed mewn mis cyfan dim ond un person a welais yn gwisgo crys tîm pêl-droed — a chefnogwr Lerpwl oedd hwnnw! O gofio mai McManaman oedd wedi ei sgwennu ar ei gefn, efallai ei bod hi'n amser i rywun gael gair ag o!

Yn ystod y mis rwyf wedi fy moddi gan ddau beth — pêl-fas ac ystadegau. O ydyd yn meddwl bod gormod o bêl-droed ar y teledu gartref nid yw'n ddim o'i gymharu â'r bêl-fas yno. Mae rhywbeth am y gêm ar bob rhaglen newyddion — ar y sianelau lleol a chenedlaethol. Yn y cylch lle'r oeddwn i Seattle Mariners yw'r prif dîm. Hyd at flwyddyn yn ôl roeddent yn chwarae yn Kingdome, powlen gaeedig o goncrid sy'n dal 60,000 o bobl. Yna symud i'r stadiwm newydd — y Safeco Field. Pam y Safeco Field? Wel, y cwmni hwnnw gynigiodd y swm fwyaf o arian i gael eu henwau ar y maes newydd. A faint dalodd y cwmni insiwrans am y fraint? — 20 miliwn o ddoleri (£13 miliwn). Dyna i chi syniad o atyniad y gêm. Chwarae'r y gemau yn y gynghrair genedlaethol mewn cyfresi o dair — tair noson yn olynol. Fel mwyn ysgrifennu'r erthygl hon mae tridiau pwysicaf y Mainers — mae'r New York Yankees draw yma. Gyda'r Mainers wedi ennill pump o'u chwe gêm olaf gallwch ddychmygu y diddordeb. Bydd rhyw 160,000 wedi gwyllo dros y tridiau. Gyda tocynnau ar gyfartaledd oddeutu £15 gellwch feddwl am yr arian a gynhyrchir. Mae'r chwaraewyr ar gyflogau anhygoel — un yn derbyn cytundeb am 11 miliwn o ddoleri am bedair blynedd. Mae disgwyl mawr yma oherwydd mae un o brif chwaraewyr y gynghrair, Mark McGuire ar fin taro ei 500fed homerun (taro'r bêl allan o'r maes a rhedeg o gwmpas i sgorio rhediad). Y traddodiad yma yw fod pwy bynnag yn y dorf sy'n dal y peli sy'n sgorio homerun sy'n cael ei chadw. Yr amcangyfrif yw y gall pwy bynnag fydd yn dal yr homerun hanesyddol werthu'r bêl am 3 miliwn doler.

Yna'r ystadegau. Dadansoddir pob agwedd o'r chwarae o ochr y batiwr a'r pitcher (bowliwr). Gyda llaw, os nad yw'r pitcher yn cael noson dda fe gaiff ei newid yn syth. Dim sentiment yn y gêm hon! Mae'r sgrin



Y Golygydd Chwaraeon o flaen y stadiwm newydd a'r hen stadiwm.

deledu yn llawn ystadegau yn ystod y gêm. Ac yna'r maeswyr druan. Os ydynt yn methu daliad (yn y faneg lledr enwog), neu yn methu rhedeg batiwr allan trwy daflad blêr neu gam-faesu, yna fe'i nodir yn y golofn 'error' yn ei erbyn. I ddathlu'r mileniwm mae un o'r sianelau yn cynnal cystadleuaeth i enwi 35 chwaraewyr blaenllaw y ganrif. Mae gwobrau gwych a disgwylir i 30 miliwn gystadlu. Ydy mae poeth yn fawr yma!

Gêm yr haf yw pêl-fas wrth gwrs ac yna bydd y pêl-droed Americanaidd yn dechrau. Ar hyn o bryd mae'r timau i gyd eu gwerylloedd — y cyfnod o ymarfer dechrau tymor. Eto, rhoddir sylw mawr i'r cyfnodau hyn a phwy sy'n symud ac i lle. Eto'r manylder a'r ystadegau. Un newyddiadurwr lleol yn amseru dawn un o'r chwaraewyr yng ngharfan y Seattle Seahawks — roedd wedi 'ffymblo' dwy bas yn ystod y sesiwn ymarfer. Dydy'r tymor ddim wedi dechrau eto ond mae'r cyllyll allan yn barod. Mae gan Seattle dîm pêl-droed hefyd ond ychydig iawn o sylw a gaiff. Mae buddugoliaeth tîm merched yr UDA yn cipio Cwpan y Byd wedi creu tipyn o ddiddordeb. Ni allwn fyw gyda'r manylder yma, felly 'strike-out' amdani, ac yn ôl i brawn Sadwrn gwlyb ar feysydd pêl-droed ecsotig y gogledd.

Pencampwyr



Gareth Bryfdir ac Alwyn Williams — enillwyr pencampwriaeth golff Ysgol Brynrefail (gweler tudalen 3)

Apêl

Wedi gorffen talu am y tlysau a chyflwyno'r fantolen ariannol ar gyfer Tlws yr Eco (Cynradd) sylwais nad oedd rhai o'r timau wedi talu y tâl ymaelodi, sef £5. Roedd 10 tîm pêl-droed, a 6 tîm pêl-rwyd. Dim ond

£55 ddaeth i law, felly mae 3 tîm heb dalu. A ellwch chi anfon yr arian i mi gyn gynted a phosib, os gwelwch yn dda.

Gan fy mod yn America nid chefais gyfle i drefnu cystadleuaeth Tlws yr Eco ar gyfer timau hyn yr ardal. Wn i ddim os oes gan y timau ddiddordeb i'w chynnal yn hwyrach ymlaen yn y tymor. Os nad oes, efallai y gellir ymestyn Tlws yr Eco (Cynradd) i ymwneud ag oedran arall — dan 14 neu dan 14 efallai. Beth yw barn y clybiau? Yr un yw fy apêl ar ddechrau tymor pêl-droed arall. Os oes gennych unrhyw tori, digwyddiad neu hysbyseb sy'n mynnu sylw, gadewch i mi wybod mewn da bryd ar (01248) 670115.

Draw i Anfield

Llongyfarchiadau i Marcus Orlick o Lanberis. Mae'r pêl-droediwr addawol 14 oed wedi derbyn cytundeb dwy flynedd hefo Academi Pêl-droed Lerpwl. Cwmni felly i Eifion Jones a thipyn o Gymraeg ymysg y llu ieithoedd sy'n britho Anfield y dyddiau hyn.

Rhwydo a Rhwydo!

Cafodd Gavin Allen o Ddeiniolen ddechreuad da i'w dymor pêl-droed yng nghynghrair Cymru. Sgoriodd dair gwaith ym muddugoliaeth Bangor yng Nghaersws — tîm a fu'n fwgan iddynt ers sawl tymor. Bu Bangor yn ceisio arwyddo Gavin ers peth amser ond mae erbyn hyn wedi dilyn Meirion Appleton, ei gyn-reolwr yn Aberystwyth, i Ffordd Farrar. Mae'n galonogol bod mwy o fechgyn lleol Gwynedd yng ngharfan Bangor eleni. Ymddengys fod polisi gan y clwb eleni i gael mwy o bresenoldeb yn y gymuned leol. Mae Baerry Boyle, a gyflogir gan Gynghrair Gwynedd fel Swyddog

Datblygu, yn hyfforddi Bangor. Hefyd, rhoddwyd swydd ychwanegol i Gavin fel cyfarwyddwr lleol 'Pêl-droed yn y Gymuned'. Gobeithio y bydd yn ei swydd newydd yn rhwydo rhai o dalentau lleol a'u denu i Ffordd Farrar. Diddorol sylwi fod Emrys Williams, un o'r ychydig lleol yn nhîm Caernarfon, wedi symud i Fangor. Oes neges yn hyn o beth i selogion yr Oval? Truenus oedd sylwi mai ar yr Oval roedd un o'r torfeydd lleiaf ar y Sadwrn agoriadol — 182 — er bod yr ymwelwyr, Y Drenewydd, yn un o dimau mwyaf atyniadol y gynghrair.



Carfan Llanrug a enillodd gêm ddarbi gynta'r tymor yn erbyn Deiniolen.

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf cefais gip sydyn ar dri tîm yr ardal. Roedd torf dda wedi dod i Ffordd Padarn i wyklïo y Locos yn chwarae yn erbyn Llanfairpwll. Mewn gwynt cryf cafwyd gêm dda, gyda'r ddau dîm yn chwarae pêl-droed atyniadol. Roedd tîm profiadol gan y Locos — er wn i ddim faint ohonynt sydd ar yr 'ail ffurflen'. Rwy'n sicr fod y dull yma o arwyddo am godi ei ben eto yn ystod y tymor. Cefais fy mhlesio yn arw gan dîm lleol ifanc Llanfairpwll. Dyma dîm i'w wylïo yn y dyfodol — ac roedd sgowt un o glybiau Manceinion yno yn gwylïo'r gêm. Ar Eithin Duon roedd Llanrug yn croesawu Deiniolen. Y tîm cartref a orfu mewn gêm a reolid i raddau gan y gwynt cryf yn chwythu ar draws y maes. Mae tipyn o her yn wynebu Arwel Hughes wedi iddo gymryd yr awennau ar Gae'r Bwthyn wedi ymadawiad John Williams. Bu'r un garfan yn driw i John dros y

tymhorau ac mae'n debyg y bydd yn rhaid i Arwel roddi ei stamp ei hun ar y tîm o hyn ymlaen. Mae tîm ifanc Llanrug yn weddol debyg i un y tymor diwethaf a chwilio am 'gysondeb' fydd eu prif nod hwy.

Bydd mwy o gyfle yn ystod y tymor i roi sylw mwy manwl i'r timau ond ymddengys fod rhai cwynion yn aros. Costau y dyfarnwyr a'r llumanwyr ar gyfer gêm Deiniolen gartref i'r Bermo oedd £56. Gyda'r cardiau melyn hefyd dyna gost o oddeutu £70. Gyda llaw, roedd y dyfarnwr o Harlech!

O ddychwelyd o'r America roedd un ergyd drist i bêl-droed lleol. Oherwydd y gost ariannol yn bennaf, yn ôl a ddeallaf, ni fydd tîm o Lanberis yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch eleni. Trist meddwl fod un o'r mawrion — os nad y mwyaf — wedi ymadael . . . Llechid, Llanberis, Mountain Rangers . . . pwy fydd nesaf tybed?